

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Papur Gwyn ar Ddigonolrwydd Tai, Rhenti Teg a Fforddiadwyedd
Swyddog(ion) a gwblhaodd yr Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Lili Thompson (Polisi Tai) Anna Evans (Polisi Tai) Einion Dafydd (Strategaeth Dai)
Adran:	Tai ac Adfywio
Pennaeth Is-adran/SRO (enw):	Sarah Rhodes, Dirprwy Gyfarwyddwr (Polisi Tai)
Gweinidog y Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:	Jayne Bryant, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Dyddiad Dechrau:	Mehefin 2024

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?	3
Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol?	9
Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg?	15
Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd?	17
Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol?	21
Adran 6. Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Beth fydd yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol?	25
Adran 7. Cofnod o'r Aseidiadau Effaith Llawn sy'n Ofynnol.....	25
Adran 8. Casgliad.....	27
Adran 9. Datganiad.....	31
Aseidiadau Effaith Llawn.....	32
A. Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.....	32
B. Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	40
C. Aseiad Effaith Prawfesur Gwledig.....	70
E. Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg.....	73
F. Aseiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth	77
G. Aseiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol	81

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut rydych wedi cymhwyso / y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 at y camau gweithredu arfaethedig, drwy gydol y cylch polisi a chyflawni?

Mae'r Papur Gwyn, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Integredig hwn, yn nodi amrywiaeth o gynigion ynglŷn â sut i sicrhau digonolrwydd tai, gan gynnwys cynigion ynglŷn â 'rhenti teg a fforddiadwyedd' yn y Sector Rhentu Preifat.

Cefndir

Mae'r Papur Gwyn yn cyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyhoeddi 'Papur Gwyn a fydd yn cynnwys cynigion ar gyfer hawl i gartref digonol gan gynnwys rhenti teg a dulliau newydd i wneud cartrefi i gartrefi'n fforddiadwy i bobl ar incwm lleol.'

Ceir amrywiaeth o gynigion yn y Papur Gwyn, ond nid oes unrhyw un o'r cynigion hyn ar gyfer deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon. Felly, mae'r ddogfen hon yn asesiad effaith strategol o'r cynigion a chynhelir asesiad manylach pellach os bydd unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn arwain at gynigion deddfwriaethol yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod, gan nad oes unrhyw gynigion ar gyfer deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon yn y Papur Gwyn hwn, ein bod wedi'n cyfyngu o ran ein gallu i asesu effaith posibl y Papur Gwyn ar hyn o bryd. Yn yr un modd, mae rhai o'r cynigion ar gyfer diwygiadau yn y Sector Rhentu Preifat yn ystyried ffyrdd posibl o gyflawni bwriadau polisi, yn hytrach na mecanwaith penodol. Rydym wedi amlinellu effaith bosibl y Papur Gwyn ac rydym yn cydnabod lle nad yw'n bosibl asesu'r effaith yn llawn ar y cam cynnar hwn yn y broses o ddatblygu polisi. Byddwn yn parhau i asesu effaith y cynigion hyn yn fanylach wrth i'r polisi ddatblygu, gan fyfyrto ar ein canfyddiadau drwy ddiweddarau'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ystod cylch y polisi.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai argymhellion yn dilyn yr Ymchwiliad i'r Hawl i Gael Tai Digonol¹. Yn ein hymateb i'r Pwyllgor², gwnaethom dderbyn argymhellion yr Ymchwiliad ac rydym wedi defnyddio'r argymhellion i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cynigion yn y Papur Gwyn.

Cyhoeddwyd Cais am Dystiolaeth Papur Gwyrdd ar sicrhau llwybr tuag at Dai Digonol – gan gynnwys Rhenti Teg a Fforddiadwyedd, ym mis Mehefin 2023³. Roedd y Papur

¹ Yr hawl i gael tai digonol (senedd.cymru)

² <https://senedd.cymru/media/w2lph24v/gen-ld16051-w.pdf> (senedd.cymru)

³ [digonolrwydd-tai-rhenti-teg.pdf](#) (llyw.cymru)

Gwyrdd yn gais am dystiolaeth er mwyn meithrin dealltwriaeth well o'r farchnad rentu yng Nghymru a dulliau gweithredu y gellid eu defnyddio i sicrhau digonolrwydd tai. Yn ystod haf 2023, cynhaliwyd gweithdai gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys landlordiaid preifat a thenantiaid, fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd. Cyhoeddwyd y crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyrdd ym mis Ebrill 2024.⁴ Llywiodd y dystiolaeth a gyflwynwyd a chyfraniadau at y Papur Gwyrdd, gan gynnwys y gweithdai, y gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn hwn.

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hefyd wedi'u datblygu gyda chymorth ein Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid allanol. Sefydlwyd y grŵp er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn drwy sicrhau bod prosesau ymgysylltu ar waith a bod safbwyntiau rhanddeiliaid yn cael eu hystyried. Mae'r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid yn cynnwys aelodau sefydliadau sy'n cynrychioli llais landlordiaid yn y sector cyhoeddus, asiantiaid gosod eiddo a'r trydydd sector. Mae'r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid wedi cyfarfod bum gwaith fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Papur Gwyn.

Crynodeb o'r diwygiadau arfaethedig

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys pennod sy'n amlinellu'r cyd-destun polisi ar gyfer y diwygiadau arfaethedig ac, yna, mae'n cynnwys penodau pellach ar 'Digonolrwydd Tai' a 'Rhenti Teg'. Mae'r bennod ar ddigonolrwydd tai yn amlinellu'r dull arfaethedig y gallai Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i sicrhau digonolrwydd tai ac mae'r adran 'Rhenti Teg a Fforddiadwyedd' o'r Papur Gwyn yn amlinellu'r ymyriadau tymor byrrach i dymor canolig yn y Sector Rhentu Preifat a fydd yn cyfrannu at sicrhau digonolrwydd tai. Fel y'u crynhoir, mae'r Papur Gwyn yn nodi'r cynigion canlynol-

Digonolrwydd Tai:

- Cynnig i ddatblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn sefydlu fframwaith a fydd yn ysgogi camau gweithredu i sicrhau tai digonol. Byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth dai o fewn terfyn amser penodol er mwyn cyflawni'r nod o sicrhau digonolrwydd tai. Byddai'r strategaeth dai hon yn ystyried sut i sicrhau digonolrwydd tai a'i fesur yn erbyn y fframwaith a ddarperir gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (CESCR). Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar saith ffactor (neu faen prawf) digonolrwydd tai.

Rhenti Teg:

Bydd y cynigion canlynol yn ystyried sut i wella fforddiadwyedd yn y Sector Rhentu Preifat.

- Ystyried sut i wella data ar 'renti'r farchnad' fel y gellir casglu rhagor o wybodaeth am renti'r farchnad ar lefelau lleol. Yn dilyn hyn, sicrhau bod mwy o wybodaeth am renti ar

⁴ [Templed Ymgynghoriad \(llyw.cymru\)](#)

gael i'r cyhoedd, gan gynnwys, o bosibl, drwy lunio mapiau gofodol o renti cyfartalog yn ôl maint eiddo i lefel uwch codau post.

- Ystyried mecanwaith a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i godiadau rhent gael eu herio a helpu Swyddogion Rhenti i gael gwybodaeth am renti mewn perthynas ag eiddo penodol at ddibenion cyfrifo Lwfansau Tai Lleol perthnasol.

Bydd y cynnig canlynol yn ystyried sut i wella cyfaneddoldeb yn y Sector Rhentu Preifat.

- Ystyried y posibilrwydd o gyflwyno gofyniad i drwyddedeion Rhentu Doeth Cymru ddiweddarau eu cyfrif gyda Rhentu Doeth Cymru bob blwyddyn i gwblhau Cofnod Cyflwr Eiddo Blyneddol er mwyn cadarnhau bod gan eiddo Dystysgrif Diogelwch Nwy ac Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol dilys, bod archwiliadau eiddo wedi'u cwblhau yn yr eiddo [y dyddiad y'u cynhaliwyd], a hunanardystiad nad oes unrhyw un o'r 29 o faterion neu amgylchiadau a restrir yn yr Atodlen i Reoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Anedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022 yn bresennol yr eiddo, a bod:
 - Larymau mwg wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad trydan i'w cael yn yr eiddo a'u bod wedi'u profi,
 - Synwryddion carbon monocsid (lle y bo'n berthnasol) wedi'u gosod ac wedi'u profi.

Bydd y cynnig canlynol yn ystyried sut i wella hygyrchedd y Sector Rhentu Preifat, gan sicrhau y gall pawb gael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat ac aros ynddo.

- Cynnig i ddatblygu canllawiau cenedlaethol ar ddarparu Gwarantwr Rhent, er mwyn darparu dull gweithredu cyson a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i helpu unigolion na allant drefnu Gwarantwr Rhent i drefnu gwarantwr addas drwy'r ffrydiau cyllido presennol sydd ar waith.
- Cynnig i wneud darpariaeth er mwyn galluogi landlord i allu talu cost premiwm ychwanegol ar ei bolisi yswiriant (neu drefnu polisi newydd) sy'n ymwneud â 'difrod a achosir gan anifeiliaid anwes' fel 'taliad a ganiateir' o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019.

Mae'r cynnig canlynol yn ystyried sut i wella'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy.

- Ystyried y posibilrwydd o ddiwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 er mwyn darparu ad-daliad treth i landlordiaid preifat, neu fuddiolwyr etifeddiaeth wrth brynu eiddo neu, fel arall, gaffael buddiant ynddo os bydd yn cael ei ddefnyddio fel eiddo rhent fforddiadwy o dan reolaeth yr awdurdod lleol (er enghraifft Cynllun Lesio Cymru).

Effaith

Asesiad Effaith Integredig o gynigion drafft yw hwn ac nid yw unrhyw un o'r cynigion hyn yn ystyried deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon. Byddwn yn myfyrio ar y dystiolaeth a gyflwynir i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac yn ystyried sut i asesu effaith y cynigion yn fanylach drwy ddiweddarau'r Asesiad Effaith Integredig hwn.

Ar y cyfan, bydd y cynigion hyn yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol, gan gynnwys:

- Symud ymlaen tuag at sicrhau digonolrwydd tai drwy gynnig y dylid datblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn sefydlu fframwaith a fydd yn ysgogi camau gweithredu i sicrhau digonolrwydd tai. Byddai'r deddfwriaeth arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth dai o fewn terfyn amser penodol er mwyn cymryd camau i gefnogi'r gwaith o wireddu digonolrwydd tai fesul cam.
- Gwella data ar renti'r farchnad yn y Sector Rhentu Preifat, a fydd yn galluogi tenantiaid a darpar denantiaid i wneud dewisiadau mwy hyddysg o ran y rhent gofyn am ddarpar denantiaethau (os caiff y data eu cyhoeddi). Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fforddiadwyedd y Sector Rhentu Preifat.
- Gwella cyfaneddoldeb eiddo yn y Sector Rhentu Preifat.
- Gwella hygyrchedd y Sector Rhentu Preifat drwy sicrhau y gall pawb gael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat ac aros ynddo.
- Cynyddu'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Bydd symud ymlaen tuag at sicrhau digonolrwydd tai yn allweddol i lesiant a bywyd iach. Bydd symud ymlaen tuag at sicrhau digonolrwydd tai yn helpu i gyflawni'r saith nod llesiant, sef:

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Gydnerth
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru Iachach,
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Hirdymor

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn cynnwys cynigion hirdymor a thymor canolig. Bydd cynigion ar gyfer strategaeth dai yn rhan o raglen ddiwygio hirdymor drwy nodi dull strategol o sicrhau digonolrwydd tai yng Nghymru, a gaiff ei fesur a'i fonitro dros amser. Gallai cynigion ar gyfer 'rhenti teg' gynnwys cynigion byrdymor i dymor canolig.

Mae'r cynigion hyn yn rhan o'r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu.⁵

Atal

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys amrywiaeth o gynigion a ddylai atal problemau rhag codi neu waethygu a helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. Gan fod tai yn un o sylfeini allweddol bywyd iach, bydd symud ymlaen tuag at sicrhau digonolrwydd tai yn

⁵ Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2023-2024

gweithredu fel cam ataliol er mwyn cefnogi agweddau eraill ar fywyd yng Nghymru, megis iechyd a'r economi.

Integreiddio

Cartref digonol yw'r sylfaen ar gyfer sicrhau y gall pawb gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir, gan gynnwys eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Mae'r cynigion ynglŷn â digonolrwydd tai yn ystyried sut i sicrhau bod tai yn ddigonol yn yr ystyr y gall pobl ddod o hyd i gyfleoedd gwaith ac addysg lle maent yn byw, a sicrhau bod gwasanaethau fel gwasanaethau gofal iechyd, ysgolion a chyfleusterau cymdeithasol eraill ar gael i bobl.

Bydd y cynigion yn y Papur Gwyn yn helpu i gyflawni'r saith nod llesiant. Gan fod cartref digonol yn sylfaen ar gyfer llwyddiant mewn agweddau ar fywyd, bydd y cynigion hyn yn cefnogi amcanion cyrff cyhoeddus eraill, megis awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector. Dylai'r cynigion yn y Papur Gwyn gefnogi blaenoriaethau eraill yn y Rhaglen Lywodraethu, megis iechyd a'r economi.

Sefydlwyd Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn. Mae'r grŵp yn cynnwys aelodau sefydliadau sy'n cynrychioli llais landlordiaid yn y sector cyhoeddus, asiantiaid gosod a'r trydydd sector.

Cydweithio

Mae'n hanfodol cydweithio â rhanddeiliaid eraill y bydd y cynigion yn effeithio arnynt er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion llesiant. Fel rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer y Papur Gwyn, byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid. Fel y gwnaethom ar gyfer yr ymarfer ymgysylltu blaenorol wrth ddatblygu'r Papur Gwyn, byddwn yn cynnal sawl digwyddiad ymgynghori er mwyn sicrhau bod cyfle i bob safbwynt gael ei gyflwyno.

Cyfranogiad

Mae Adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁶ yn nodi bod yn rhaid i gorff cyhoeddus ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru wrth wneud penderfyniadau sydd o ddiddordeb iddynt neu sy'n effeithio arnynt. Bydd symud ymlaen tuag at sicrhau digonolrwydd tai yn effeithio ar bobl ym mhob math o ddeiliadaeth tai yng Nghymru ac, felly, mae'n hanfodol ymgysylltu â phob grŵp yr effeithir arno.

Ym mis Mehefin 2023, gwnaethom gyhoeddi cais am dystiolaeth Papur Gwyrdd ar Sicrhau llwybr tuag at Dai Digonol, gan gynnwys Rhenti Teg a Fforddiadwyedd er mwyn casglu dystiolaeth gan y sector cyn datblygu'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn. At hynny, cynhaliwyd gweithdai dros yr haf y flwyddyn honno â gwahanol randdeiliaid, gan gynnwys landlordiaid preifat a thenantiaid, yn Llandudno, Caerfyrddin a Chaerdydd er mwyn casglu rhagor o

⁶ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: yr hanfodion \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

dystiolaeth Hefyd, cyflwynodd Llywodraeth Cymru weithdy ar-lein a hwyluswyd gan Sefydliad Bevan er mwyn ymgysylltu â'r sector tai ehangach. Mae Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid allanol o arbenigwyr o sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector hefyd wedi'i ffurfio i gydweithio â ni i ddatblygu'r Papur Gwyn. Cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn, gwnaethom gyfarfod â Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn trafod effaith y Papur Gwyn ar y Gymraeg. Gwnaethom hefyd gydnabod yr angen i gasglu rhagor o wybodaeth am farn rhentwyr yng Nghymru. Felly, comisiynwyd Beaufort Research i gynnal arolwg cynrychioliadol o agweddau tenantiaid at ddigonolrwydd tai yng Nghymru, gan ddefnyddio Omnibws Mehefin 2023 Beaufort ar gyfer Cymru.

Mae fersiwn hawdd ei deall o'r Papur Gwyn hefyd wedi'i chyhoeddi, er mwyn sicrhau prosesau ymgysylltu cynhwysol.

Cost ac Arbedion

Er ei bod yn debygol y bydd costau yn gysylltiedig â chynigion i ddatblygu strategaeth dai, mae'n debygol y bydd gwella digonolrwydd tai yn fuddiol i agweddau eraill ar gymdeithas yng Nghymru, megis iechyd a'r economi. Felly, mae'n debygol y sicrhau arbedion yn yr hirdymor.

O ran y cynnig i ddarparu ad-daliad o'r Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer eiddo sydd i'w ddefnyddio fel cyflenwad tai fforddiadwy, rhagwelir y gallai refeniw treth a allai gael ei golli o ganlyniad i hawlio ad-daliad ar gyfer cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir gael ei wrthbwyso gan gostau a osgoir wrth ddarparu tai drwy Gynllun Lesio Cymru yn hytrach na llety dros dro. Dengys data o 2022/2023 fod rhoi llety dros dro i bobl yn costio tua £34m y flwyddyn⁷. Byddai angen ystyried yr arbediad cost hwn ochr yn ochr â ffactorau eraill fel rhan o unrhyw asesiad o effeithiau er mwyn cefnogi unrhyw ddiwygiad i'r Dreth Trafodiadau Tir a allai gael ei gyflwyno yn y dyfodol.

Gan nad oes unrhyw gynigion ar gyfer deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon, nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y cam hwn yn y broses o ddatblygu polisi. Bydd unrhyw gynigion ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn, er mwyn sicrhau bod costau a manteision unrhyw opsiynau yn cael eu hasesu.

Mecanwaith

Nid oes unrhyw gynigion ar gyfer deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon ac mae unrhyw newidiadau arfaethedig yn cynnwys defnyddio ysgogiadau mewn deddfwriaeth bresennol. Felly, nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y cam hwn yn y broses o ddatblygu polisi. Bydd unrhyw gynigion ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn.

⁷ <https://senedd.cymru/media/t0hodwzt/sub-ld16101-em-w.pdf> (senedd.cymru)

2.1 Pobl a Chymunedau

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?

Gan fod y Papur Gwyn yn cynnig y dylid datblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf, mae'r asesiad o effaith y cynnig ar bobl a chymunedau yn gyfyngedig ar y cam hwn yn y broses o ddatblygu polisi ac, felly, nid yw'r effaith lawn yn hysbys eto. Bydd cynigion pellach ar gyfer deddfwriaeth yn asesu effaith y cynigion ar bobl a chymunedau yn fanylach.

Fodd bynnag, bwriad y Papur Gwyn yw cymryd y cam nesaf tuag at sicrhau digonolrwydd tai i bawb ac, felly, dylai'r Papur Gwyn a'r polisi a ddatblygir wedyn yn dilyn yr ymgynghoriad gael effaith gadarnhaol ar lesiant cymdeithasol. Dylai'r cynigion yn y Papur Gwyn ar gyfer yr ymyriadau tymor byrrach i dymor canolig i wella fforddiadwyedd, hygyrchedd a chyfaneddoldeb yn y Sector Rhentu Preifat gael effaith gadarnhaol ar lesiant cymdeithasol. Mae effeithiau penodol ar grwpiau o bobl a chymunedau wedi'u hamlinellu isod:

Grwpiau o bobl a chymunedau

Dylai'r adran o'r Papur Gwyn sy'n ymdrin â chynigion ar gyfer y Sector Rhentu Preifat gael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl ar incwm is.

- Pobl ar incwm is

Bydd y cynnig i wella'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar unigolion ar incwm is, am fod y grŵp hwn o bobl yn fwy tebygol o fod ar restr aros ar gyfer eiddo rhent fforddiadwy neu'n dibynnu ar lety dros dro.

Yn yr un modd, un o amcanion y Papur Gwyn yw gwella hygyrchedd y Sector Rhentu Preifat drwy ddileu rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cael mynediad at y Sector Rhentu Preifat. Mae effaith gadarnhaol hyn ar aelwydydd incwm is wedi'i nodi yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn **Atodiad B** ac yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn **Atodiad G**.

- Landlordiaid preifat

Ni ddylai'r Papur Gwyn gael lawer o effaith ar landlordiaid preifat o ran gofynion gweinyddol ychwanegol a rhagwelir y byddai'n cael effaith niwtral ar eu gallu i redeg eu busnes rhentu.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid ystyried mecanweithiau i wella data ar renti'r farchnad drwy ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ddarparu gwybodaeth am faint o rent a godir ganddynt. Nid yw'r Papur Gwyn yn nodi dull penodol o wneud hyn ond mae'n awgrymu mai Rhentu Doeth Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu presennol ar gyfer landlordiaid, fyddai'r corff mwyaf priodol i weinyddu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth hon. Mae'r papur yn nodi y bydd angen i unrhyw broses casglu rhent gael ei chynnal mewn ffordd sy'n parchu sensitifrwydd masnachol a gofynion diogelu data. Mae'r papur hefyd yn nodi bod y dull arfaethedig o gael y wybodaeth hon drwy Rhentu Doeth Cymru yn debygol o osod baich gweinyddol isel ar landlordiaid preifat. Nid yw'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid cyfyngu ar faint o rent y gall landlord ei godi. Megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu'r cynigion a byddwn yn parhau i asesu eu heffaith wrth i'r polisi ddatblygu. Yn seiliedig ar ein hasesiad presennol, rydym o'r farn y dylai'r cynigion gael effaith niwtral ar allu landlordiaid preifat i redeg eu busnesau rhentu. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai landlordiaid preifat anghytuno â hyn ac y bydd angen ymgysylltu â'r sector ymhellach er mwyn asesu effaith bosibl cynigion polisi yn y dyfodol.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn cynnwys cynnig y dylai trwyddedeion lunio 'Cofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol'. Byddai'r cofnod hwn yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau y mae eisoes yn ofynnol i drwyddedeion gydymffurfio â nhw, o dan y gyfraith. Felly, rhagwelir na fyddai hyn yn gosod llawer o faich gweinyddol ar drwyddedeion. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn cynnwys cwestiwn ynghylch a ellid cysylltu 'Cofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol' â gwybodaeth arall, megis y cynnig uchod i gasglu data rhenti. Nod y cynnig hwn yw lleihau'r baich gweinyddol ar drwyddedeion ymhellach. Er y bydd angen cynnal asesiad pellach, ar y cam datblygu cynnar hwn, rhagwelir na fyddai hyn yn gosod llawer o faich gweinyddol ar landlordiaid.

Gallai'r cynnig yn y Papur Gwyn ynglŷn â 'rhentu gydag anifeiliaid anwes' gael effaith gadarnhaol ar landlordiaid preifat. Mae'r cynnig yn nodi, os bydd tenant am gael anifail anwes, y dylai landlord allu gofyn am daliad ar gyfer cost premiwm ychwanegol sy'n ymwneud â difrod a achosir gan anifeiliaid anwes (er na fyddai'r fath daliad a ganiateir yn gallu bod am swm uwch na therfyn rhagnodedig). Dylai'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol ar landlordiaid am ei fod yn rhoi sicrwydd y bydd yswiriant yn talu am unrhyw ddifrod a allai gael ei achosi i'w heiddo gan anifail anwes eu tenant. Gan nad yw'n hysbys faint o landlordiaid sy'n rhentu eiddo i denantiaid ag anifeiliaid anwes ar hyn o bryd, ac a fyddai'r cynnig hwn yn cynyddu nifer y landlordiaid sy'n caniatáu anifeiliaid anwes, nid yw'n bosibl nodi effaith y cynnig hwn ar y cam hwn yn y broses o ddatblygu polisi.

Dylai'r cynnig i gynyddu'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy gael effaith gadarnhaol gymedrol ar landlordiaid preifat sy'n awyddus i ehangu eu portffolio eiddo. Mae'r Papur Gwyn yn ceisio barn ynghylch a ddylid darparu ad-daliad treth i unigolion sy'n prynu eiddo i'w ddefnyddio fel eiddo rhent fforddiadwy o dan reolaeth yr awdurdod lleol (megis Cynllun Lesio Cymru). Dylai'r cynnig gael effaith gadarnhaol gan y gallai annog unigolion i brynu eiddo a'i lesio i'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl asesu effaith y cynnig hwn

ar landlordiaid preifat yn llawn am fod llawer o ffactorau eraill yn dylanwadu ar benderfyniad unigolyn i gaffael eiddo. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cwestiwn ynghylch a fyddai rhoi ad-daliad treth yn cymell unigolion i brynu eiddo a'i lesio i awdurdod lleol ac, felly, byddwn yn parhau i asesu'r effaith bosibl ar unigolion a all fod yn ystyried prynu eiddo neu landlordiaid presennol sy'n awyddus i ehangu eu portffolio.

2.2 Hawliau Plant

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn **Atodiad A**.

2.3 Cydraddoldeb

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn **Atodiad B**.

2.4 Prawfesur Gwledig

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar unigolion a chymunedau gwledig?

Ceir Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig yn **Atodiad C**.

2.5 Iechyd

2.5a Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar benderfynyddion iechyd?

Dylai'r Papur Gwyn gael effaith gadarnhaol sylweddol ar iechyd.

Gall tai annigonol gael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi mai tai yw un o'r sylfeini hanfodol ar gyfer bywyd iach⁸.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid datblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn sefydlu fframwaith a fydd yn ysgogi camau gweithredu i sicrhau tai digonol. Byddai'r deddfwriaeth arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth dai o fewn terfyn amser penodol er mwyn cyflawni'r nod o sicrhau digonolrwydd tai. Byddai'r strategaeth dai hon yn ystyried sut i sicrhau digonolrwydd tai a'i fesur yn erbyn y fframwaith a ddarperir gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (CESCR). Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar saith ffactor (neu faen prawf) digonolrwydd tai.

⁸ [Tai iach – Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](http://gig.cymru)

Gall tai anfforddiadwy gael effaith negyddol ar lesiant Gall cost tai, megis methu â fforddio taliadau morgais neu daliadau rhent, arwain at bwysau ariannol a gorbryder, gan gael effaith negyddol ar iechyd meddwl. Gall tai anfforddiadwy hefyd gael effaith negyddol ar iechyd corfforol pobl os na all unigolion fforddio talu biliau ynni a'u bod, felly, yn fwy tebygol o fod yn byw mewn cartrefi oer a llaith, sy'n cynyddu'r risg o drawiadau ar y galon, strôc a chyflyrau arthritig ac anadlol. Mae effaith negyddol tai anfforddiadwy ar iechyd corfforol a llesiant yn cael ei hamlinellu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei adroddiad, *Cartrefi fforddiadwy ar gyfer iechyd a llesiant*⁹. Mae'r Papur Gwyn yn ystyried mecanweithiau i wella fforddiadwyedd tai drwy gynigion ar gyfer strategaeth dai yn y dyfodol, a thrwy gynigion i wella fforddiadwyedd yn y Sector Rhentu Preifat. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid gwella data yn y Sector Rhentu Preifat drwy ystyried mecanwaith ar gyfer y ffordd y gellid rhannu gwybodaeth am renti, er mwyn gwella data ar renti'r farchnad yn y Sector Rhentu Preifat. Bydd data gwell ar renti'r farchnad yn y Sector Rhentu Preifat yn gam nesaf hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â fforddiadwyedd yn y Sector Rhentu Preifat gan y bydd yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer ymyriadau polisi yn y dyfodol.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid cyflwyno gofyniad i landlordiaid ac asiantiaid yn y Sector Rhentu Preifat gwblhau Cofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ac asiantiaid gymryd amrywiaeth o gamau er mwyn sicrhau bod eiddo yn ffit i bobl fyw ynddo, er bod tystiolaeth yn dangos nad yw pob landlord yn bodloni'r gofynion hyn. Rhagwelir y bydd cyflwyno gofyniad i landlordiaid ac asiantiaid gwblhau Cofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol sy'n cadarnhau bod eiddo yn ddiogel yn codi safonau yn y sector, a fydd yn sicrhau bod mwy o eiddo yn y Sector Rhentu Preifat yn ddiogel. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd unigolion yn y Sector Rhentu Preifat.

Yn ogystal â'r effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant unigolion, dylai'r diwygiadau arfaethedig gael effaith ariannol gadarnhaol ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Dengys y dystiolaeth fod tai o ansawdd gwael yn costio mwy na £95m y flwyddyn i GIG Cymru¹⁰. Ceir tystiolaeth bellach o effeithiau negyddol tai annigonol ar iechyd a chost tai annigonol i'r GIG yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn **Atodiad B**.

Dylai'r cynnig i gynyddu'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy gael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl. Mae tystiolaeth wedi dangos yr effaith negyddol ar iechyd meddwl yr unigolion hynny sydd mewn llety dros dro anaddas, sydd i'w phriodoli'n rhannol i

⁹ [Cartrefi fforddiadwy ar gyfer iechyd a llesiant \(phwwhocc.co.uk\)](http://phwwhocc.co.uk)

¹⁰ [Tai gwael yn costio £95m y flwyddyn i'r gwasanaeth iechyd – adroddiad newydd - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](http://gig.cymru)

ansicrwydd eu sefyllfa fyw¹¹. Mae sicrhau y gall pawb sy'n ddigartref symud i mewn i gartref sefydlog cyn gynted â phosibl yn hytrach nag aros mewn llety dros dro am gyfnodau hir o amser yn agwedd bwysig ar ddull Ailgartrefu Cyflym Llywodraeth Cymru. Bydd cynyddu'r cyflenwad o dai sefydlog fforddiadwy yn rhoi sefydlogrwydd i unigolion sydd wedi bod mewn llety dros dro a dylai gael effaith gadarnhaol ar lesiant.¹²

2.5b. A allai fod effaith wahaniaethol ar iechyd grwpiau penodol?

Mae'r Papur Gwyn yn ystyried sut y gallai strategaeth dai fod yn gymwys yng nghydestun tai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr. Mae mwyafrif sylweddol y bobl yng Nghymru yn byw mewn tai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr.¹³ Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain, gydag 87% o bobl hŷn yn berchen ar eu cartref eu hunain¹⁴. Mae pryderon iechyd penodol ar gyfer pobl hŷn mewn tai, megis tai y mae angen gwneud gwaith atgyweirio arnynt¹⁵. Felly, gallai ystyried strategaeth dai yng nghydestun tai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr gael effaith gadarnhaol wahaniaethol ar bobl hŷn. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn **Atodiad B**.

Dylai'r cynigion gael effaith gadarnhaol wahaniaethol ar bobl ar incwm is. Fel y nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn **Atodiad B** a'r Asesiad Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn **Atodiad G**, mae'r heriau o ran fforddiadwyedd a chyfaneddoldeb yn y Sector Rhentu Preifat yn fwy tebygol o effeithio ar bobl ar incwm is.

Ar y cam cynnar hwn yn y broses o ddatblygu polisi, nid oes angen asesiad manylach o'r effaith ar iechyd. Gan nad oes unrhyw gynigion ar gyfer deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon, cydnabyddir bod yr asesiad o'r effaith bosibl ar iechyd yn gyfyngedig. Bydd unrhyw gynigion pellach ar gyfer deddfwriaeth yn destun asesiad pellach o effeithiau cynigion ar iechyd.

2.6 Preifatrwydd

A fydd y cynnig yn cynnwys prosesu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion?

¹¹ [Unsuitable-Peoples-experiences-of-temporary-accommodation-in-Wales.pdf \(sheltercymru.org.uk\)](#)

¹² [Ailgartrefu Cyflym: canllawiau \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

¹³ [Amcangyfrifon stoc anheddau: ar 31 Mawrth 2023 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

¹⁴ [Deall-poblogaeth-Cymru-syn-heneiddio.pdf \(comisiynyddph.cymru\)](#)

¹⁵ [From-Wear-and-Tear-to-Disrepair-FINAL-ENG.pdf](#)

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynnig i ystyried dulliau o wella data ar renti'r farchnad. Un o'r opsiynau i gyflawni hyn yw darparu ffordd i landlordiaid rannu gwybodaeth am renti ar gyfer eu heiddo mewn ffordd sy'n parchu sensitifrwydd masnachol a gofynion diogelu data. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid preifat gyflwyno gwybodaeth am faint o rent y maent yn ei godi ar ddechrau tenantiaeth newydd a phryd bynnag y bydd cynnydd mewn rhent yn ystod tenantiaeth drwy hysbysiad rhent. Petai gwybodaeth am renti yn cael ei chasglu fel hyn, cynigir y gellid defnyddio'r data i ddatblygu map gofodol dienw o renti'r farchnad sydd ar gael i'r cyhoedd a fyddai'n dangos rhenti'r farchnad yn ôl ardal cod post neu ward mewn ffordd na fyddai'n caniatáu i gyfeiriad eiddo unigol gael ei ddatgelu.

Mae'r cynnig yn nodi y byddai angen i unrhyw ofyniad barchu gofynion diogelu data ac, felly, ni ddefnyddir y wybodaeth hon i adnabod unigolion. Y bwriad yw na fyddai'n bosibl i ddata rhenti gael eu cysylltu ag unigolyn ac, felly, ni ddylai data rhenti fod yn gyfystyr â data personol. Fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi ymhellach mewn perthynas â'r mecanwaith i sicrhau data rhenti, bydd angen asesu a allai'r dull ar gyfer casglu data rhenti arwain at gasglu data personol.

Mae'r cynnig hwn yn nodi y byddai data o'r fath yn cael eu dal gan Rhentu Doeth Cymru (yr awdurdod trwyddedu). Petai Rhentu Doeth Cymru yn casglu'r data hyn, byddai'r data yn ddarostyngedig i'w bolisiâu a'i ofynion diogelu data ar yr adeg y byddai unrhyw ofyniad yn cael ei gyflwyno.

Megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu'r polisi ar gyfer y cynnig i gasglu gwybodaeth am renti ac nid oes mecanwaith penodol wedi'i nodi ar gyfer sut i gasglu gwybodaeth am renti ar hyn o bryd. Ar yr adeg hon, nid yw'r cynnig yn gofyn am brosesu data personol ac, felly, nid oes angen cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer y Papur Gwyn. Bydd gwaith datblygu polisi pellach mewn perthynas â'r posibilrwydd o gasglu data rhenti yn cael ei wneud a chaiff gofynion diogelu data eu hasesu.

Hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y cynnig yn y Papur Gwyn a byddwn yn ymgysylltu ymhellach â nhw wrth i opsiynau polisi gael eu datblygu ymhellach. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori os bydd unrhyw gynigion ar gyfer deddfwriaeth, mesurau rheoleiddio, codau ymarfer statudol neu ganllawiau statudol yn y dyfodol.

ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

3.1 Llesiant Diwylliannol

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'. Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol adeiledig yn ogystal â threftadaeth anniriaethol fel traddodiadau; mae'r celfyddydau yn cwmpasu'r sector perfformio a'r sector creadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, y theatr a chelf, tra bod chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elít a chymunedol yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ehangach.

3.1a Sut y gall y cynnig gyfrannu at y nod o hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden? (ar gyfer y Gymraeg gweler adran 3.2)

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'.

Dylai'r cynigion yn y Papur Gwyn i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth dai yn ystod tymor y Senedd nesaf gyfrannu at hyrwyddo diwylliant a threftadaeth a helpu pobl i gyfranogi yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Mae'r cynnig yn nodi y dylai strategaeth dai ystyried sut i gyflawni strategaeth dai a'i mesur yn erbyn fframwaith CESC. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys 'lleoliad' fel un o feini prawf digonolrwydd:

'Lleoliad. Rhaid i dai digonol fod mewn lleoliad sy'n galluogi pobl i fanteisio ar opsiynau gwaith, gwasanaethau gofal iechyd, ysgolion, canolfannau gofal plant a chyfleusterau cymdeithasol eraill. Mae hyn yn wir mewn dinasoedd mawr ac mewn ardaloedd gwledig lle gall y costau o ran amser ac arian sy'n gysylltiedig â theithio i'r gweithle ac oddi yno roi cryn bwysau ar gyllidebau aelwydydd tlawd. Yn yr un modd, ni ddylid adeiladu tai ar

safleoedd llygredig nac yn agos at ffynonellau llygredd a allai danseilio hawl y trigolion i iechyd.¹⁶

Bydd gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried lleoliad fel rhan o ddigonolrwydd tai yn sicrhau y gall pobl gael tai sy'n diwallu pob un o'u hanghenion, megis addysg ac opsiynau cyflogaeth. Bydd sicrhau y gall pobl ddiwallu'r anghenion hyn yn eu tai yn helpu unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau a fydd o fudd i'w llesiant, megis y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon. Mae cymdeithas sy'n hyrwyddo cyfranogiad yn y celfyddydau yn cael ei hystyried yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, fel yr amlinellir gan Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru¹⁷ a'r ymgynghoriad mwy diweddar ar y Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant yng Nghymru 2023-2030.¹⁸

At hynny, gallai'r cynigion i wella fforddiadwyedd, cyfaneddoldeb a hygyrchedd y Sector Rhentu Preifat helpu tenantiaid (a darpar denantiaid) i fod yn iach a gallu fforddio cyfranogi'n amlach yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Dylai'r cynigion i wella'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy gael effaith gadarnhaol ar lesiant diwylliannol gan y byddant yn darparu eiddo am bris mwy fforddiadwy ac yn galluogi tenantiaid, o bosibl, i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

3.1b A allai'r cynnig gael effaith negyddol o ran hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, mewn chwaraeon ac mewn gweithgareddau hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, drwy gynnig cyfleoedd amgen)?

Rhagwelir y bydd strategaeth dai yn y dyfodol yn helpu i lywio'r ystyriaethau mewn cynlluniau datblygu lleol ac asesiadau o'r farchnad dai leol, a fydd yn pennu lleoliad tai ar lefel leol, a sut y bydd yn cyfrannu at hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth. Felly, ni ddisgwylir i'r cynigion yn y Papur Gwyn gael effaith negyddol.

3.2Y Gymraeg

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn **Atodiad E**.

¹⁶ [General Comment No. 4: The Right to Adequate Housing \(Art. 11 \(1\) of the Covenant\) | Refworld](#)

¹⁷ [datganiad-o-weledigaeth-ar-gyfer-y-celfyddydau-a-diwylliant-golau-yn-y-gwyll.pdf \(llyw.cymru\)](#)

¹⁸ [Ymgynghoriad ar y Blaenoriaethau Drafft ar gyfer Diwylliant yng Nghymru 2024 i 2030 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae cefnogi twf economi Cymru a, thrwy hynny, fynd i'r afael â thlodi, wrth wraidd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

4.1 Busnesau, y cyhoedd ac unigolion

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnesau a'r cyhoedd?

Yn yr hirdymor, dylai'r cynigion yn y Papur Gwyn gael effaith gadarnhaol sylweddol ar fusnesau a'r cyhoedd. Nod y Papur Gwyn yw symud ymlaen tuag at sicrhau digonolrwydd tai a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar dwf economi Cymru. Bydd hyn yn sicrhau y gall unigolion ddatblygu i'w llawn botensial drwy feithrin sgiliau a cheisio cyfleoedd gwaith/addysg. Mae tystiolaeth wedi dangos bod cysylltiad rhwng digonolrwydd tai a lefelau uwch o gynhyrchiant a gweithgarwch economaidd¹⁹.

Fel y nodir yn yr asesiad o'r effaith ar iechyd, dylai'r diwygiadau arfaethedig hefyd sicrhau arbedion i'r GIG drwy leihau problemau iechyd y gellir eu hatal a achosir gan dai annigonol. Bydd yr arbedion hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr economi. Bydd gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl hefyd yn cyfrannu at sicrhau bod gan Gymru weithlu iach.

Yn y tymor byrrach, mae'n debygol y bydd costau'n gysylltiedig â datblygu deddfwriaeth ar gyfer sicrhau digonolrwydd tai yn y dyfodol, gan gynnwys costau staffio yn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rhagwelir y caiff costau cychwynol eu gwrthbwysu gan y gwelliant hirdymor i'r stoc dai yng Nghymru a'r effaith gadarnhaol a gaiff hyn ar iechyd a thwf economaidd.

Dylai'r cynnig i ystyried mecanweithiau i wella data ar renti'r farchnad gael effaith niwtral ar allu landlordiaid preifat i redeg eu busnesau rhentu. Mae'r cynnig yn ystyried mecanweithiau i'w gwneud yn ofynnol i landlordiaid preifat ddarparu gwybodaeth am renti. Dylai hyn gael effaith niwtral ar fusnesau landlordiaid preifat gan na fyddai'r cynnig yn cyfyngu ar faint o rent y gall landlord preifat ei godi. Fodd bynnag, gallai fod risg, pe na bai landlord yn fodlon darparu gwybodaeth am renti, y gallai ddewis gadael y sector, a allai, yn ei dro, leihau nifer yr eiddo rhent yn y byrdymor, a allai gael effaith negyddol petai'n

¹⁹ [Alma-Economics-Back-the-Bill-Phase-1-Full-Report.pdf \(sheltercymru.org.uk\)](#)

cynyddu'r costau sy'n gysylltiedig â digartrefedd. Fodd bynnag, gan y byddai'r annedd honno yn dal i fodoli o fewn y stoc dai bresennol ac y byddai'n cael ei phrynu naill ai gan berchen-feddiannydd neu landlord preifat arall, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol hirdymor ar yr economi. At hynny, yn ei hymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023 i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn), roedd Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl o blaid ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ddarparu gwybodaeth am renti²⁰.

Megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu'r cynigion a byddwn yn parhau i asesu eu heffaith wrth i'r polisi ddatblygu. Yn seiliedig ar ein hasesiad presennol, rydym o'r farn y dylai'r cynigion gael effaith niwtral ar allu landlordiaid preifat i redeg eu busnesau rhentu. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai landlordiaid preifat anghytuno â hyn ac y bydd angen ymgysylltu â'r sector ymhellach er mwyn asesu effaith bosibl cynigion polisi yn y dyfodol.

Dylai'r cynnig i gyflwyno 'Cofnod Cyflwr Eiddo Blynnyddol' gael effaith niwtral ar fusnesau, ac yn achos y rhai sy'n cydymffurfio'n llawn gallai gael effaith gadarnhaol gan y gallai helpu i sicrhau bod eiddo yn cael ei osod yn gyflymach yn y dyfodol o gymharu ag eiddo na all ddangos drwy'r gofrestr ei fod yn ffit i bobl fyw ynddo. Mae gofynion arfaethedig y Cofnod Cyflwr Eiddo Blynnyddol yn faterion y mae eisoes yn ofynnol i drwyddedeion gydymffurfio â nhw o dan y gyfraith ond, hyd yma, na fu'n rhaid iddynt adrodd arnynt na chadarnhau eu bod ar waith. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar allu landlordiaid i redeg eu busnes rhentu.

Dylai'r cynnig i wella'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy gael effaith gadarnhaol sylweddol ar y cyhoedd. Fel y nodir yn y Papur Gwyn, mae defnyddio llety dros dro yn ddrud, a byddai'n fanteisiol osgoi'r costau hyn a darparu atebion tymor hwy drwy gynyddu'r cyflenwad o lety fforddiadwy.

4.2 Y sector cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?

Dylai'r diwygiadau arfaethedig gael effaith gadarnhaol sylweddol ar awdurdodau lleol.

²⁰ [Creu llwybr tuag at dai digonol gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd | LLYW.CYMRU](#)

Fel y nodwyd uchod, bydd cynyddu'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy yn lleihau nifer yr unigolion mewn awdurdodau lleol sydd ar restrau aros am dai ac yn lleihau'r gost uchel sy'n gysylltiedig â darparu llety dros dro. At hynny, bydd cynigion yn y Papur Gwyn i ddarparu canllawiau cenedlaethol ar ddarparu Gwarantwr Rhent yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar awdurdodau lleol gan y byddant yn sicrhau cysondeb â'r ffordd y maent yn mynd ati i gefnogi'r rhai y mae angen Gwarantwr Rhent arnynt. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn rhoi arian ar gyfer Cynllun Lesio Cymru a chymorth tai dewisol i awdurdodau lleol ac, felly, ni ragwelir y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn cael unrhyw effeithiau ariannol ychwanegol ar y sector cyhoeddus.

Mae'r Papur Gwyn yn awgrymu y gallai Rhentu Doeth Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu ar gyfer landlordiaid preifat, gasglu gwybodaeth am renti. Petai Rhentu Doeth Cymru yn casglu gwybodaeth am renti, mae'n debygol y byddai angen mwy o weithgarwch gweinyddol i wneud hyn. Er nad oes modd nodi'r effaith ar Rhentu Doeth Cymru ar hyn o bryd, mae un o'r cwestiynau yn gofyn a ellid casglu gwybodaeth am renti fel rhan o'r Cofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol, a fyddai'n lleihau'r baich gweinyddol. Caiff yr effaith bosibl ar Rhentu Doeth Cymru ei hystyried ymhellach wrth i gynigion polisi gael eu datblygu ymhellach.

4.3 Y Trydydd Sector

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau yn y trydydd sector a'r hyn y maent yn ei wneud?

Mae sefydliadau yn y trydydd sector yn darparu amrywiaeth o gymorth a chynngor i'r rhai y mae tai annigonol yn cael effaith negyddol arnynt. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i wasanaethau cynngor ddarparu gwybodaeth a chynngor annibynnol ynglŷn â thenantiaethau. Bydd y Papur Gwyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y trydydd sector am mai nod y Papur Gwyn yw symud ymlaen tuag at sicrhau digonolrwydd tai. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi mai un o'r ystyriaethau allweddol ar gyfer strategaeth dai yn y dyfodol fydd ystyried i ba raddau y mae mecanweithiau presennol yn effeithiol. Gallai hyn gynnwys y gwahanol ffrydiau cyllido i sefydliadau yn y trydydd sector.

Bydd y diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar bobl sydd eisoes yn cael cryn dipyn o gymorth gan y trydydd sector. Bydd y cynnig i lunio canllawiau cenedlaethol i awdurdodau lleol ar ddarparu Gwarantwr Rhent yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gyson pan fyddant yn darparu cymorth. Bydd hyn o fudd i sefydliadau yn y trydydd sector sy'n rhoi arweiniad i bobl ynglŷn â'u hopsiynau o ran tai gan y bydd yn sicrhau bod y canllawiau yn gyson rhwng awdurdodau lleol. Bydd y cynnig i gynyddu'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y trydydd sector am fod y nifer mawr o unigolion sydd mewn llety dros dro yn effeithio arnynt.

4.4 Yr Effaith ar Gyfiawnder

- **A ydych yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd?**

Nid oes unrhyw gynigion i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol newydd yn ystod tymor y Senedd hon. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn edrych ar y posibilrwydd o ystyried ysgogiadau mewn deddfwriaeth bresennol a chynigion ar gyfer deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf. Bydd unrhyw gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol yn destun Asesiad llawn o'r Effaith ar Gyfiawnder.

- ♦ **A ydych yn creu, yn dileu neu'n diwygio trosedd?**

Dd/G

- ♦ **A allai eich cynnig gael unrhyw effaith arall ar y system gyfiawnder e.e. drwy gynyddu nifer yr achosion o ymgyfreitha, yr angen am gymorth cyfreithiol, apeliadau yn erbyn penderfyniad corff cyhoeddus?**

Mae'r Papur Gwyn yn ystyried manteision gwneud newidiadau deddfwriaethol a fyddai'n galluogi tenantiaid preifat sydd am herio codiadau rhent i wneud hynny drwy ofyn i Swyddogion Rhenti bennu rhent ac yn darparu hawl apelio i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl. Byddai cynigion o'r fath yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol a mater i'r llywodraeth nesaf fyddai eu hymgorffori yn ei rhaglen ddeddfwriaethol, petai'n penderfynu gwneud hynny.

Mae cyfarwyddyd desg 7 canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymrwymiad i ymgynghori â'r Arglwyddes Brif Ustus, Pennaeth y Farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr a Llywydd Llysoedd Cymru a Lloegr, ar gynigion a fydd yn newid cyfraith droseddol, neu a allai effeithio ar y farnwriaeth a'r system llysoedd a thribiwnlysoedd.

Unig ddiben y Papur Gwyn yw ceisio barn ac, felly, ni chaiff unrhyw effaith ar y system gyfiawnder ar hyn o bryd. Bydd unrhyw gynigion manylach yn destun ymgysylltu pellach â'r Arglwyddes Brif Ustus.

Penderfynwyd nad oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar y System Gyfiawnder ar hyn o bryd, gan nad oes unrhyw gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol newydd yn ystod tymor y Senedd hon, nad oes unrhyw gynnig i greu, diwygio neu ddileu trosedd, ac nad oes unrhyw effaith ar y system gyfiawnder ar hyn o bryd. Bydd unrhyw gynigion pellach ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol yn destun Asesiad llawn o'r Effaith ar y System Gyfiawnder.

ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

O dan Adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi polisi adnoddau naturiol a chymryd pob cam rhesymol i'w roi ar waith ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Cyhoeddwyd y [Polisi Adnoddau Naturiol](#) ym mis Awst 2017.

Bydd angen i chi ystyried a, lle y bo'n ofynnol, gwblhau'r asesiadau canlynol er mwyn sicrhau bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd:

Yn ofynnol ar gyfer pob cynnig:	<ul style="list-style-type: none"> Blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol 	5.1a 5.1b
Yn ofynnol ar gyfer pob cynnig	<ul style="list-style-type: none"> Bioamrywiaeth 	5.2 ac Atodiad F
Yn ofynnol ar gyfer pob cynnig	<ul style="list-style-type: none"> Newid yn yr Hinsawdd 	5.3
Cynlluniau a rhaglenni penodol y mae'n ofynnol cynnal Aseiad Amgylcheddol Strategol ar eu cyfer o dan Reoliadau Aseidiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004	<ul style="list-style-type: none"> Aseiad Amgylcheddol Strategol 	5.4 a Chanllawiau ar gyfer Aseiad Effaith Integredig
Cynigion a allai effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig:	<ul style="list-style-type: none"> Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd 	5.5 a Chanllawiau ar gyfer Aseiad Effaith Integredig

<p>Prosiectau penodol sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref; trafnidiaeth; amaethyddiaeth; coedwigaeth; morol, draenio tir; a thrydan y mae'n ofynnol cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) ar eu cyfer o dan wahanol Reoliadau AEA</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 	<p>5.6 a Chanllawiau ar gyfer Asesiad Effaith Integredig</p>
---	--	--

5.1 Adnoddau Naturiol

5.1a Sut y bydd y cynnig yn cyflawni un neu fwy o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol?

Nid ystyrir bod y Papur Gwyn yn cael unrhyw effaith ar Flaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol.

5.1b A fydd y cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Er na fydd y Papur Gwyn yn cael effaith uniongyrchol ar Adnoddau Naturiol, mae'r cynigion yn debygol o fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd drwy gynnwys cymunedau lleol yn y gwaith o lunio a datblygu cynigion. Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol yn y meysydd canlynol:

- Cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd drwy ddarparu'r cam nesaf tuag at sicrhau digonolrwydd tai i bawb, sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb iechyd ac anghydraddoldeb economaidd.
- Cefnogi cydlyniant cymunedol drwy edrych ar ddigonolrwydd tai gan ystyried lleoliad fel un o'r ffactorau.
- Cefnogi cyflogaeth sicr a sefydlog drwy edrych ar ddigonolrwydd tai gan ystyried lleoliad ac ystyried bod tai yn annigonol os nad oes gwaith ar gael i unigolion.

5.2 Bioamrywiaeth

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n rhaid i chi gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth, yn Atodiad F isod.

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn **Atodiad F**.

5.3 Newid yn yr Hinsawdd

5.3a Carbon

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau nwyon tŷ gwydr?

Mae swyddogion wedi ystyried effaith y cyngor hwn ar garbon. Nid ydym wedi mesur yr allyriadau sy'n gysylltiedig ag ef am ein bod yn disgwyl iddynt ostwng islaw'r trothwy ar gyfer dadansoddiad meintiol. Rydym yn hyderus iawn fod ein hasesiad yn gywir.

5.3b Y gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd

- A fydd unrhyw un o'r risgiau a nodir yn Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU yn effeithio ar y cynnig hwn?

Na fyddant. Ni fydd unrhyw un o'r risgiau a nodir yn Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU yn effeithio ar yr un o'r cynigion²¹.

- A fydd y cynnig hwn yn gwaethygu unrhyw un o'r risgiau a nodir yn Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU?

Na fydd.

- A fydd y cynnig hwn yn lleihau unrhyw un o'r risgiau a nodir yn Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU?

Na fydd.

5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol

Nid oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer y Papur Gwyn hwn gan nad yw'r cynigion yn debygol o gael effaith ym meysydd allweddol amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, rheoli dŵr, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir.

²¹ Crynodeb ar gyfer Cymru (CCRA3-IA) - UK Climate Risk

5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Nid oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Papur Gwyn hwn gan na fydd y cynigion yn effeithio ar y canlynol:

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA);
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig;
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Ymgeisiol;
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig;
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Posibl;
- Safleoedd Ramsar (safleoedd sydd wedi'u dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 ar gyfer gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol); a,
- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Nid oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer y Papur Gwyn hwn gan na fydd unrhyw waith yn cael ei wneud sy'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- Adeiladu, mwyngloddio, gwaith echdynnu neu waredu gwastraff ar y tir neu'r môr (gan gynnwys datblygu trefol, priffyrdd, porthladdoedd, ynni, amaethyddiaeth a ffermio pysgod);
- Newid defnydd tir;
- Coedwigo neu ddatgoedwigo;
- Gwaith gwella amaethyddol ar dir heb ei drin neu mewn ardaloedd lled-naturiol;
- Ailstrwythuro daliadau tir gwledig; neu
- Echdynnu dŵr neu ddraenio tir.

ADRAN 6. Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL?

6.1 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn golygu bod angen i gyrff cyhoeddus ystyried sut y gall eu penderfyniadau strategol, megis pennu amcanion a datblygu gwasanaethau cyhoeddus, leihau anghydraddoldeb canlyniadau i bobl sydd o dan anfantaes economaidd-gymdeithasol.²²

Gweler yr Aseiad llawn o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn **Atodiad G**.

ADRAN 7. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN SY'N OFYNNOL

Rydych bellach wedi penderfynu ar gyfer pa feysydd y mae angen cynnal aseiad effaith manylach. Rhestrwch nhw isod.

Asesiad o'r Effaith	Oes/Nac oes	Os oes, dylech wneud y canlynol
Hawliau plant	Oes	Cwblhau'r Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant isod
Cydraddoldeb	Oes*	Cwblhau'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb isod
Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol	Oes	Cwblhau'r Aseiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol isod
Prawfesur Gwledig	Oes	Cwblhau'r Aseiad Effaith Prawfesur Gwledig isod
Iechyd	Nac oes	Cyfeirio at y canllaw ar Aseidiadau Effaith Integredig
Preifatrwydd	Nac oes	Cwblhau'r Error! Reference source not found. isod

²² Cymru Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol | LLYW.CYMRU

Y Gymraeg	Oes	Cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg isod
Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Nac oes	Cyfeirio at y canllaw ar Asesiadau Effaith Integredig
Cyfiawnder	Nac oes	Cwblhau'r ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder ar y fewnwyd
Bioamrywiaeth	Oes*	Cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth isod
Newid yn yr Hinsawdd	Nac oes	Cyfeirio at y canllaw ar Asesiadau Effaith Integredig
Asesiad Amgylcheddol Strategol	Nac oes	Cyfeirio at y canllaw ar Asesiadau Effaith Integredig
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Nac oes	Cyfeirio at y canllaw ar Asesiadau Effaith Integredig
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	Nac oes	Cyfeirio at y canllaw ar Asesiadau Effaith Integredig

* Yn orfodol ar gyfer pob cynnig er mwyn cyflawni rhwymedigaethau statudol.

ADRAN 8. CASGLIAD

8.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi helpu i'w ddatblygu?

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn, sefydlwyd Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid allanol a oedd yn cynnwys aelodau o sefydliadau cynrychioliadol yn y sector, gan gynnwys landlordiaid preifat, asiantiaid gosod eiddo a sefydliadau yn y trydydd sector.

Ym mis Mehefin 2023, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ar Sicrhau llwybr tuag at Dai Digonol, gan gynnwys Rhenti Teg a Fforddiadwyedd. Cyhoeddwyd y Papur Gwyrdd fel cais am dystiolaeth gan randdeiliaid i geisio eu barn ar sut i sicrhau digonolrwydd tai, a rhenti teg a fforddiadwyedd yn y Sector Rhentu Preifat. Yn ystod haf 2023, cynhaliwyd gweithdai gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys landlordiaid preifat a thenantiaid, fel rhan o'r cyfnod ymgynghori. Cawsom amrywiaeth o dystiolaeth mewn ymateb i'r Papur Gwyrdd a ddefnyddiwyd gennym wrth inni ddatblygu polisi ar gyfer y Papur Gwyn.

Darparodd TPAS Cymru, mewn cydweithrediad â Llesiant Rhieni Sengl, adroddiad ar safbwyntiau tenantiaid fel rhan o'i ymateb i'r Papur Gwyrdd, a nododd mai fforddiadwyedd, cyfaneddoldeb a diogelwch deiliadaeth oedd yr agweddau pwysicaf ar ddigonolrwydd tai.

Gwnaethom gomisiynu Beaufort Research i gyhoeddi adroddiad ar safbwyntiau tenantiaid ynglŷn â digonolrwydd tai, a gyhoeddir yn ystod Hydref 2024. Mae hyn wedi sicrhau ein bod wedi gwneud pob ymdrech i ystyried safbwyntiau rhentwyr yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y broses ymgynghori hon, gan gynnwys drwy ddigwyddiadau ymgynghori.

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Dylai'r cynnig yn y Papur Gwyn i ddatblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn sefydlu fframwaith i ysgogi camau gweithredu i sicrhau tai digonol, gael effaith gadarnhaol ar lawer o agweddau ar gymdeithas yng Nghymru.

Ymhlith yr effeithiau mwyaf sylweddol mae:

- Dangos ymrwymiad i fwrw ymlaen â'r gwaith o sicrhau digonolrwydd tai yng Nghymru drwy gynnig deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn sefydlu fframwaith i ysgogi camau gweithredu i sicrhau tai digonol.
- Gwella fforddiadwyedd llety rhent drwy wella data ar renti'r farchnad yn y Sector Rhentu Preifat. Bydd hyn yn galluogi tenantiaid a darpar denantiaid i wneud

dewisiadau mwy hyddysg o ran y rhent gofyn am ddarpar denantiaethau a fydd, yn ei dro, yn dylanwadu ar y ffordd y bydd rhenti yn newid dros amser yn y dyfodol.

- Gwella cyfaneddoldeb eiddo yn y Sector Rhentu Preifat drwy ystyried y posibilrwydd o gyflwyno gofyniad i drwyddedeion Rhentu Doeth Cymru ddiweddarau eu cyfrif gyda Rhentu Doeth Cymru bob blwyddyn i gwblhau Cofnod Cyflwr Eiddo Blynnyddol.
- Gwella hygyrchedd y Sector Rhentu Preifat, yn enwedig i'r rhai sy'n rhentu am y tro cyntaf, y rhai ar incwm is neu'r rhai sydd am rentu gydag anifail anwes.
- Gwella'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy i aelwydydd incwm is neu'r rhai sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd.

Dylai'r cynnig i ddatblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn sefydlu fframwaith ar gyfer digonolrwydd tai a diwygiadau arfaethedig pellach, gael effaith gadarnhaol sylweddol ar iechyd. Dylai'r diwygiadau arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl am fod tai yn un o'r sylfeini hanfodol ar gyfer bywyd iach. Yn ogystal â'r effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant unigolion, dylai'r diwygiadau arfaethedig gael effaith ariannol gadarnhaol ar y GIG.

Dylai'r diwygiadau arfaethedig hefyd gael effaith gadarnhaol ar yr economi oherwydd, er ei bod yn debygol y bydd costau yn gysylltiedig â datblygu strategaeth dai yn y dyfodol, mae gwella digonolrwydd tai yn debygol o fod yn fuddiol i agweddau eraill ar gymdeithas yng Nghymru megis iechyd. Felly, mae'n debygol y sicrheir arbedion yn yr hirdymor. O ran y cynnig ynglŷn ag ad-daliad treth posibl ar gyfer eiddo y bwriedir ei lesio i'r awdurdod lleol i'w ddefnyddio fel eiddo fforddiadwy, er y gallai fod gostyngiad bach mewn refeniw treth, gallai hyn arwain at osgoi costau mewn perthynas â chostau llety dros dro, a fyddai'n fwy na'r refeniw a fyddai'n cael ei golli, gan gael effaith gadarnhaol ar yr economi.

Dylai'r diwygiadau arfaethedig gael effaith gadarnhaol sylweddol ar unigolion ar incwm is. Mae CESCRR yn cynnwys 'fforddiadwyedd' fel un o'r meini prawf ar gyfer digonolrwydd tai. Bydd y cynnig i wella'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar unigolion ar incwm is, am fod y grŵp hwn o bobl yn fwy tebygol o fod ar restr aros ar gyfer eiddo rhent fforddiadwy neu'n dibynnu ar lety dros dro. Bydd y cynnig i ystyried mecanwaith i gael data rhenti yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion ar incwm is gan y bydd yn galluogi tenantiaid i wneud dewisiadau mwy hyddysg o ran y rhent gofyn am ddarpar denantiaethau a fydd, yn ei dro, yn dylanwadu ar y ffordd y bydd rhenti yn newid dros amser yn y dyfodol. Fodd bynnag, er mai bwriad y cynnig yw gwella fforddiadwyedd, gallai gael effaith negyddol ar y cynnig ar gyfer unigolion ar incwm is. Os ceir gwybodaeth am renti a bod cytundeb rhannu data yn cael ei lunio â Swyddogion Rhenti, mae'n bosibl y gallai swm y budd-dal tai y mae gan unigolyn hawl iddo leihau. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio y gallai swm y budd-dal tai hefyd gynyddu ac nad yw'n bosibl i effaith y cynnig hwn gael ei hasesu eto. Ceir rhagor o fanylion am yr effaith hon yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn **Atodiad B**, o dan yr adran ar incwm is.

Gallai hefyd fod effaith negyddol ar y cynigion ar gyfer rhentu ag anifeiliaid anwes. Dylai'r cynnig yn y Papur Gwyn ynglŷn â rhentu ag anifeiliaid anwes gael effaith gadarnhaol ar aelwydydd incwm is sy'n berchen ar anifail anwes, gan y bydd yn dileu'r rhwystr sy'n eu hatal rhag cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat a gan na fyddai'r fath daliadau a ganiateir a ddefnyddir i yswirio difrod a achosir gan anifeiliaid anwes yn fwy na therfyn rhagnodedig. Dylai hyn atal landlordiaid rhag codi taliadau eraill, megis drwy gynyddu'r blaendal. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar aelwydydd incwm is. Mae'n bosibl bod rhentwyr presennol o aelwydydd incwm is sydd ag anifail anwes eisoes, am fod eu landlord yn caniatáu anifeiliaid anwes yn ei eiddo. Mae'n bosibl y gallai caniatáu i landlord godi swm i dalu cost premiwm ychwanegol ar ei yswiriant (neu drefnu polisi newydd) sy'n ymwneud â 'difrod a achosir gan anifeiliaid anwes' annog landlordiaid i ofyn am dâl nad oeddent wedi'i godi'n flaenorol ar denantiaid a oedd ag anifeiliaid anwes eisoes. Gallai hon fod yn gost ychwanegol na allant fforddio ei thalu. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl asesu effaith y cynnig hwn yn llawn a bydd angen gwneud rhagor o waith datblygu polisi ac ymgysylltu.

Rydym ar gam cynnar yn y broses o ddatblygu'r polisi ar gyfer diwygiadau arfaethedig ac, felly, rydym wedi'n cyfyngu o ran ein gallu i asesu effaith bosibl y Papur Gwyn ar hyn o bryd. Rydym wedi amlinellu effaith bosibl y Papur Gwyn ac rydym yn cydnabod lle nad yw'n bosibl asesu'r effaith yn llawn ar y cam cynnar hwn yn y broses o ddatblygu polisi. Byddwn yn parhau i asesu effaith y cynigion hyn yn fanylach wrth i'r polisi ddatblygu.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn cyfrannu at y saith nod llesiant a ragnodir yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Dylai'r diwygiadau arfaethedig gyfrannu at y saith nod llesiant am eu bod yn anelu at wella digonolrwydd tai, a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol ar gymdeithas. Dylai gwella digonolrwydd tai helpu i gyflawni'r nod o greu Cymru lewyrchus gan y bydd yn gwella

cynhyrchiant ac yn cynyddu gweithgarwch economaidd. Dylai'r diwygiadau arfaethedig hefyd sicrhau arbedion i'r GIG a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi. Dylai'r cynigion i gynyddu'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy gyfrannu at y nod o greu Cymru gydnerth am eu bod yn anelu at gynyddu'r cyflenwad o eiddo fforddiadwy drwy'r stoc dai bresennol. Dylai'r diwygiadau arfaethedig gyfrannu'n sylweddol at y nod o greu Cymru iachach gan y bydd gwella digonolrwydd tai yn gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Fforddiadwyedd yw un o'r prif agweddau ar y Papur Gwyn a dylai'r diwygiadau arfaethedig wella fforddiadwyedd i bobl ar incwm is, gan gyfrannu at y nod o greu Cymru fwy cyfartal. Mae meini prawf CЕСSR ar gyfer digonolrwydd tai yn cynnwys 'lleoliad', sy'n nodi bod yn rhaid i dai fod mewn lleoliad sy'n galluogi pobl i fanteisio ar opsiynau gwaith, gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau hanfodol eraill. Dylai ymdrechion pellach i ddatblygu polisi ar ddigonolrwydd tai gyfrannu at gyflawni'r nod o greu Cymru o Gymunedau Cydlynus, oherwydd rhoddir ystyriaeth i sut i sicrhau bod tai yn ddeniadol ac yn ddichonadwy a bod ganddynt gysylltiadau da. Dylai meini prawf 'lleoliad' ac 'argaeledd gwasanaethau' CЕСSR hefyd gyfrannu at gyflawni'r nod llesiant o greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, gan y byddai strategaeth dai yn y dyfodol yn ystyried anghenion tai cymunedau Cymraeg ac yn asesu effaith mesurau presennol i sicrhau cynaliadwyedd y Gymraeg. Dylai'r diwygiadau arfaethedig gyfrannu at gyflawni'r nod o greu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae 1.8 biliwn o bobl ledled y byd yn byw mewn aneddiadau anffurfiol neu dai annigonol²³. Bydd strategaeth dai yn y dyfodol sy'n ystyried meini prawf CЕСSR ar gyfer tai digonol fel fframwaith yn dangos arweinyddiaeth fyd-eang o ran y ffordd y mae Cymru yn mynd ati i geisio sicrhau digonolrwydd tai.

8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?

Ar ôl i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi, byddwn yn cynnal cyfnod ymgynghori. Byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori gyda landlordiaid preifat, tenantiaid a rhanddeiliaid eraill y gallai'r cynigion effeithio arnynt er mwyn sicrhau bod pob safbwynt wedi'i ystyried. Caiff pob ymateb i'r ymgynghoriad ei ddadansoddi a'i ddefnyddio i ddatblygu cynigion ymhellach.

Bydd cynigion polisi pellach yn destun Asesiad Effaith Integredig diwygiedig, manylach.

²³ Yr hawl i gael tai digonol | OHCHR

ADRAN 9. DATGANIAD

Datganiad

Rwy'n fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi'i hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: Sarah Rhodes

Adran: Tai ac Adfywio

Dyddiad: 17/10/2024

ASESIADAU EFFAITH LLAWN

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT


Rhaid i **bob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael ei anfon i flwch post CRIA@gov.wales

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn \(CCUHP\)](#) a'i [Brotocolau Dewisol](#) wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

Proses Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio er mwyn helpu Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant yn eu prosesau gwneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor Gweinidogion a rhaid iddo gael ei gwblhau cyn i benderfyniad Gweinidogol gael ei wneud.

Noder bod gennym Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant sefydledig, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad drafft o'r Effaith ar Hawliau Plant. Cysylltwch â'r Gangen Blant CRIA@gov.wales i gael rhagor o wybodaeth.

Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid i'ch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael ei gyhoeddi hefyd.



Am ragor o gyngor ac arweiniad ar broses Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant, gweler [Llawlyfr i Staff ar Hawliau Plant](#) neu cysylltwch â'r Gangen Blant CRIA@gov.wales

A. CHILDREN'S RIGHTS IMPACT ASSESSMENT

1. Amcanion polisi

- Effaith pa benderfyniad sy'n cael ei hasesu gennych?

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad B yn amlinellu effaith y cynigion ar bobl ifanc 18-24 oed. Mae'r asesiad effaith hwn yn asesu effaith y cynigion ar blant a phobl ifanc hyd at 18 oed.

Mae'r Papur Gwyn yn deillio o'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyhoeddi 'Papur Gwyn i gynnwys cynigion ar gyfer yr hawl i dai digonol gan gynnwys rhenti teg a dulliau newydd o wneud cartrefi'n fforddiadwy i'r rhai ar incwm isel.'

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid datblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn sefydlu fframwaith a fydd yn ysgogi camau gweithredu i sicrhau tai digonol. Cynigir y byddai'r ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth dai. Byddai'r strategaeth dai hon yn ystyried sut i sicrhau digonolrwydd tai a'i fesur yn erbyn fframwaith Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (CESCR). Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar saith ffactor (neu faen prawf) digonolrwydd tai.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn amlinellu cynigion ar gyfer ymyriadau byrdymor i dymor canolig er mwyn gwneud cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai yn y Sector Rhentu Preifat. Nod y cynigion hyn yw gwella cyfaneddoldeb, fforddiadwyedd a hygyrchedd y Sector Rhentu Preifat. Fel y'u crynhoir, mae'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer y Sector Rhentu Preifat yn cynnwys:

- Ystyried sut i wella data ar 'renti'r farchnad' fel y gellir casglu rhagor o wybodaeth am renti'r farchnad ar lefelau lleol. Yn dilyn hyn, sicrhau bod mwy o wybodaeth am renti ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys, o bosibl, drwy lunio mapiau gofodol o renti cyfartalog yn ôl maint eiddo i lefel uwch codau post.
- Ystyried mecanwaith a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i godiadau rhent gael eu herio a helpu Swyddogion Rhenti i gael gwybodaeth am renti mewn perthynas ag eiddo penodol at ddibenion cyfrifo Lwfansau Tai Lleol perthnasol.
- Ystyried y posibilrwydd o gyflwyno gofyniad i drwyddedeion Rhentu Doeth Cymru ddiweddarau eu cyfrif gyda Rhentu Doeth Cymru bob blwyddyn i gwblhau Cofnod Cyflwr Eiddo Blyneddol er mwyn cadarnhau bod gweithgarwch i sicrhau bod yr eiddo yn ffit i bobl fyw ynddo wedi'i gyflawni.
- Cynigion i ddatblygu canllawiau cenedlaethol ar ddarparu Gwarantwr Rhent, er mwyn darparu dull gweithredu cyson i awdurdodau lleol helpu unigolion na allant sicrhau Gwarantwr Rhent.
- Cynigion i gefnogi tenantiaid/darpar denantiaid ag anifeiliaid anwes.
- Cynigion i gynyddu'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad B yn amlinellu effaith y cynigion ar bobl ifanc 18-24 oed. Mae'r asesiad effaith hwn yn asesu effaith y cynigion ar blant a phobl ifanc hyd at 18 oed.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- **Pa waith ymchwil a data ar blant a phobl ifanc sydd eisoes ar gael i lywio eich polisi penodol? Mae'n bosibl y bydd eich amcan polisi yn effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau â thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith gan sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.**

Mae'r Sector Rhentu Preifat wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi dod yn fath poblogaidd o ddeiliadaeth. Dengys data o'r cyfrifiad diweddaraf fod nifer yr aelwydydd sy'n berchen ar eu llety eu hunain wedi lleihau o 67.8% yn 2011 i 66.4% yn 2021 a bod cyfran yr aelwydydd sy'n rhentu eu llety wedi cynyddu o 30.6% yn 2011 i 33.5% yn 2021²⁴. Gall y gostyngiad hwn mewn perchentyaeth gael ei esbonio gan ddata sy'n dangos bod prisiau tai wedi cynyddu ymhell y tu hwnt i'r cynnydd mewn cyflogau ac, felly, bod perchentyaeth yn opsiwn llai hygyrch. Ledled Cymru a Lloegr, er bod enillion wedi dyblu ers 1997, mae prisiau tai bedair gwaith a hanner yn fwy nag oeddent bryd hynny.²⁵ Teuluoedd yw traean yr holl denantiaid preifat, gyda thua hanner ohonynt yn deuluoedd un rhiant²⁶. Mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn nodi bod 28% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn ystod y tair blwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2020-2022. At hynny, mae'r strategaeth yn nodi mai aelwydydd un rhiant sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi cymharol²⁷.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y byddai strategaeth dai yn y dyfodol yn ystyried sut i sicrhau digonolrwydd tai a'i fesur yn erbyn fframwaith CЕСSR. Agwedd allweddol ar ddigonolrwydd tai o dan fframwaith CЕСSR yw fforddiadwyedd, sy'n nodi y dylai costau aelwyd fod ar lefel nad ydynt yn peryglu nac yn tanseilio anghenion sylfaenol eraill²⁸. Mae'r Papur Gwyn yn ystyried mesurau i wella fforddiadwyedd tai. Wrth asesu effaith cynigion ar blant a phobl ifanc, mae'n bwysig asesu effaith cynigion ar gyfer unigolion ar incwm is, am fod grŵp sylweddol o unigolion yn y Sector Rhentu Preifat ar incwm is²⁹.

²⁴ [Tai yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\) \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

²⁵ [Fforddiadwyedd tai yng Nghymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

²⁶ [Generation rent? – Sefydliad Bevan](#)

²⁷ [Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

²⁸ [General Comment No. 4: The Right to Adequate Housing \(Art. 11 \(1\) of the Covenant\) | Refworld](#)

²⁹ [Generation rent? – Sefydliad Bevan](#)

Mae effaith y cynigion ar gyfer unigolion ar incwm is wedi'i hasesu yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad B a'r Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn Atodiad G.

Cyhoeddwyd ymgynghoriad Papur Gwyrdd ar Sicrhau Ilwybr tuag at Dai Digonol, gan gynnwys Rhenti Teg a Fforddiadwyedd, ym mis Mehefin 2023. Cyhoeddwyd y Papur Gwyrdd fel cais am dystiolaeth gan randdeiliaid i geisio eu barn ar sut i sicrhau digonolrwydd tai, a rhenti teg a fforddiadwyedd yn y Sector Rhentu Preifat. Cawsom amrywiaeth o dystiolaeth mewn ymateb i'r Papur Gwyrdd a ddefnyddiwyd gennym wrth inni ddatblygu polisi ar gyfer y Papur Gwyn.

Lluniodd Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru (TPAS Cymru), un o'n rhanddeiliaid allweddol ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid, adroddiad Pwls Tenantiaid mewn cydweithrediad â Llesiant Rhieni Sengl.³⁰ Gofynnodd yr adroddiad i denantiaid yng Nghymru nodi beth oedd ystyr 'rhenti teg', yn eu barn nhw, a'r hyn y maent yn rhoi gwerth arno mewn perthynas â rhentu cartref. Nododd y dystiolaeth o'r adroddiad mai fforddiadwyedd, diogelwch deiliadaeth a chyfaneddoldeb oedd y ffactorau pwysicaf. Nododd bron i 60% o rieni sengl mai fforddiadwyedd yw'r ffactor allweddol ar gyfer digonolrwydd tai. Ymhlith y sampl o bobl ifanc 18-24 oed, roedd fforddiadwyedd a chyfaneddoldeb yr un mor bwysig tra roedd 63% o'r grŵp oedran 25-34 o'r farn mai fforddiadwyedd oedd y ffactor pwysicaf.

Ymatebodd Comisiynydd Plant Cymru i'r Papur Gwyrdd a darparodd dystiolaeth ar ei arolwg, 'Gobeithion i Gymru', a gafodd fwy na 10,000 o ymatebion gan blant, pobl ifanc ac oedolion³¹. Mae'r ymchwil yn nodi bod hanner y plant 7-11 oed yn pryderu ynghylch cael rhywle i fyw. Roedd 51.3% o'r plant 12-18 oed yn pryderu na fyddai gan eu teulu ddigon o arian ac roedd 24.9% yn pryderu ynghylch cael rhywle i fyw. Rhieni a gofalwyr a oedd yn pryderu fwyaf am dai, gyda 66.5% yn nodi eu bod yn pryderu ynghylch eu plant yn cael rhywle i fyw.

- **Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut rydych yn rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisiâu sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.**

Dylai'r diwygiadau arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, ar y cam hwn yn y broses o ddatblygu polisi prin yw'r dystiolaeth i allu nodi'r effaith. Bydd angen gwneud rhagor o waith ymgysylltu yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori er mwyn datblygu cynigion polisi ymhellach.

³⁰ [Adroddiad Rhenti Teg \(w\).pdf \(tpas.cymru\)](#)

³¹ [AmbitionsforWales_FINAL_ENG.pdf \(childcomwales.org.uk\)](#)

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi mai mater allweddol i'w ystyried yng nghyd-destun datblygu strategaeth dai fydd asesu i ba raddau y mae mecanweithiau presennol yn effeithiol o ran ysgogi cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc gan y bydd yn darparu dull strategol o asesu sut i sicrhau digonolrwydd tai ar gyfer grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc.

Mae meini prawf CESCRR ar gyfer tai digonol hefyd yn cynnwys 'lleoliad' fel un o ffactorau digonolrwydd tai. Mae'r Papur Gwyn yn ystyried sut i gymryd y cyd-destun lleol i ystyriaeth wrth ymateb i heriau o ran tai. Ar lefel leol, plant sy'n byw yn Rhondda, Cwm Cynon a Blaenau Gwent sydd fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tloedi cyn ystyried costau tai. Ar ôl ystyried costau tai, plant yn Rhondda, Dwyrain Casnewydd a De Caerdydd a Phenarth sydd fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tloedi.³² Bydd angen i ddatblygiadau polisi yn y dyfodol ystyried anghenion plant mewn ardaloedd daearyddol gwahanol yng Nghymru.

Mae meini prawf CESCRR hefyd yn cynnwys 'cyfaneddoldeb'. Dylai'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i Gofnod Cyflwr Eiddo Blyneddol gael ei gwblhau gael effaith gadarnhaol ar blant sy'n byw yn y Sector Rhentu Preifat, am mai nod y cynnig yw gwella cyfaneddoldeb. Mae'n debygol y bydd hyn yn lliniaru rhai o ganlyniadau iechyd negyddol tai nad ydynt yn ffit i bobl fyw ynddynt. Mae tystiolaeth wedi dangos yr effeithiau negyddol y mae tai annigonol yn eu cael ar iechyd corfforol, megis ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru³³. Gall amodau tai gwael achosi cyflyrau iechyd ymhlith plant ac mae tystiolaeth wedi dangos y gall iechyd plant a dyfodd i fyny o dan amodau tai gwael fod yn waeth yn nes ymlaen mewn bywyd³⁴. Felly, dylai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar blant sy'n byw yn y Sector Rhentu Preifat.

Bydd y diwygiadau arfaethedig ar gyfer y Sector Rhentu Preifat yn cael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc, gan mai teuluoedd â phlant yw traean yr unigolion sy'n byw yn y Sector Rhentu Preifat. Dylai'r diwygiadau arfaethedig gael effaith gadarnhaol sylweddol ar blant, gan mai nod y diwygiadau arfaethedig yw gwella fforddiadwyedd, cyfaneddoldeb a hygyrchedd y Sector Rhentu Preifat.

Bydd y cynnig i wella'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy yn cael effaith anghymesur gadarnhaol ar blant a phobl ifanc. Mae rhestrau aros am eiddo fforddiadwy yn seiliedig ar angen blaenoriaethol sy'n cynnwys unigolion sy'n byw gyda phlant. Dengys data Llywodraeth Cymru ar nifer yr achosion o bobl yn cael eu rhoi mewn llety dros dro ym mis Mehefin 2024, o blith y 1,371 o bobl ddigartref a roddwyd mewn llety acwstig dros dro, fod 300 ohonynt yn blant o dan 16 oed a bod 255 ohonynt yn bobl ifanc 16-24 oed³⁵. Mae tystiolaeth wedi dangos yr effaith negyddol y mae byw mewn llety dros dro yn ei chael ar

³² "Y mater mwyaf sy'n effeithio ar blant yng Nghymru" – mynd i'r afael â thloedi plant (senedd.cymru)

³³ Cartrefi fforddiadwy ar gyfer iechyd a llesiant (phwwhocc.co.uk)

³⁴ Poor housing conditions harm children's health and development | ESRI

³⁵ Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Mehefin 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

iechyd corfforol a llesiant plant³⁶. Bydd gwella'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar blant a phobl ifanc gan y bydd yn darparu llety diogel.

- **Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc rydych wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant na phobl ifanc, esboniwch pam.**

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd, lluniodd TPAS Cymru adroddiad Pwls Tenantiaid ar safbwyntiau ar y Sector Rhentu Preifat, gan gynnwys fforddiadwyedd, mewn cydweithrediad â Llesiant Rhieni Sengl. Mae TPAS Cymru yn arbenigwyr ymgysylltu â thenantiaid yng Nghymru.

Mae ein Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid allanol yn cynnwys gwahanol randdeiliaid, gan gynnwys rhanddeiliaid yn y trydydd sector sydd ag amrywiaeth o dystiolaeth a safbwyntiau pobl â phrofiad bywyd.

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

- *Sut y bydd eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Edrychwch ar yr [erthyglau](#) i weld pa rai sy'n gymwys i'ch polisi eich hun.*

Erthyglau neu Brotocolau Dewisol CCUHP	Yn gwella (X)	Yn herio (X)	Esboniad
<p>Erthygl 2 – Mae'n rhaid i blant na all eu teulu eu hunain ofalu amdanynt dderbyn gofal priodol, gan bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith.</p> <p>Erthygl 3 – Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant anelu at yr hyn sydd orau i bob plentyn.</p>	X		<p>Mae cartref diogel yn hanfodol i sicrhau llesiant corfforol a meddyliol pob plentyn. Mae fframwaith CESCER ar gyfer digonolrwydd tai yn amlinellu'r saith maen prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i dŷ gael ei ystyried yn gartref digonol. Bydd y diwygiadau arfaethedig yn y Sector Rhentu Preifat yn cefnogi llawer o'r meini prawf hyn.</p> <p>Bwriedir i amcanion y Papur Gwyn sicrhau y caiff pob un o Erthyglau'r</p>

³⁶ [Unsuitable-Peoples-experiences-of-temporary-accommodation-in-Wales.pdf \(sheltercymru.org.uk\)](#)

<p>Erthygl 6 – Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu mewn ffordd iach.</p> <p>Erthygl 9 – Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni onid yw hyn er eu lles nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cyswllt â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.</p> <p>Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.</p> <p>Erthygl 18 – Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent bob amser feddwl am yr hyn sydd orau ar gyfer pob plentyn. Dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w</p>			<p>Confensiwn y cyfeiriwyd atynt eu cyflawni.</p>
---	--	--	---

<p>cefnogi, yn arbennig os yw'r ddau riant yn gweithio.</p> <p>Erthygl 19 – Dylai llywodraethau sicrhau y caiff plant ofal priodol, a'u hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt</p> <p>Erthygl 23 – Dylai plant ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chymorth arbennig er mwyn iddynt allu byw bywyd llawn a bodlon</p> <p>Erthygl 24 – Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.</p> <p>Erthygl 26 – Dylai'r Llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.</p> <p>Erthygl 27 – Mae gan blant yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu</p>			
--	--	--	--

<p>hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.</p>			
---	--	--	--

4. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Byddwn yn parhau i ystyried sut i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ôl i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi ac yn ystod y cyfnod ymgynghori.

5. Monitro ac Adolygu

Byddwn yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r Papur Gwyn ac unrhyw risgiau neu faterion a nodwyd. Bydd hyn yn llywio'r cyfeiriad polisi yn y dyfodol yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u disgrifiwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?

O dan y ddyletswydd cydraddoldeb (a nodir yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010), mae'n rhaid i lawer o awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, roi 'sylw dyladwy' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchoddedig³⁷.

Mae hyrwyddo cydraddoldeb wrth wraidd cynigion i sicrhau digonolrwydd tai. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid datblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn sefydlu fframwaith a fydd yn ysgogi camau gweithredu i sicrhau tai digonol. Byddai'r deddfwriaeth arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth dai o fewn terfyn amser penodol er mwyn cyflawni'r nod o sicrhau digonolrwydd tai. Byddai'r strategaeth dai hon yn ystyried sut i sicrhau digonolrwydd tai a'i fesur yn erbyn y fframwaith a ddarperir gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (CESCR). Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar saith ffactor (neu faen prawf) digonolrwydd tai. Dylai fframwaith weithio ochr yn ochr â deddfwriaeth arall sy'n ceisio gwella tegwch canlyniadau, gan gynnwys nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn cynnwys cynigion ynglŷn ag ymyriadau tymor byrrach i dymor canolig yn y Sector Rhentu Preifat a fydd yn cyfrannu at sicrhau digonolrwydd tai. Nod y cynigion yn y Sector Rhentu Preifat yw gwella fforddiadwyedd, cyfanneddoldeb a hygyrchedd y sector hwnnw. Nodwyd bod prinder tai digonol hefyd yn rhwystr i sicrhau cydraddoldeb o ran tai ac, felly, mae cynnig i wella'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy hefyd wedi'i gynnwys.

Wrth ddatblygu'r Papur Gwyn, rydym wedi ystyried effaith y cynigion ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig wrth ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, sydd wedi rhannu eu tystiolaeth o brofiad bywyd pobl. Ym mis Mehefin 2023, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ar sicrhau llwybr tuag at dai digonol, gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Papur Gwyn yn cynnig y bydd strategaeth dai yn y dyfodol yn ystyried sut i sicrhau digonolrwydd tai a'i fesur yn erbyn fframwaith CESCR. Mae'n debygol y bydd strategaeth dai yn cynnwys fframwaith canlyniadau sy'n cysylltu'r gweithgareddau yn y sector tai â'r nod o sicrhau digonolrwydd tai. Byddwn yn asesu effaith y cynigion yn y Papur Gwyn o ran gwella digonolrwydd tai yn y Sector Rhentu Preifat ac yn ystyried

³⁷ [Deddf Cydraddoldeb 2010 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

ymhellach y bylchau presennol sy'n rhwystr i sicrhau digonolrwydd tai ar gyfer pob deiliadaeth yng Nghymru.

Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu tystiolaeth mewn perthynas â digonolrwydd tai ar gyfer llety sy'n eiddo i berchen-feddianwyr ac yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael safbwyntiau ynglŷn â sut y gallai fframwaith tai digonol weithredu yng nghyd-destun llety sy'n eiddo i berchen-feddianwyr. Ystyriwyd digonolrwydd tai ar gyfer perchen-feddianwyr (yn enwedig ar gyfer pobl hŷn sy'n fwy tebygol yn ystadegol o fod yn byw mewn llety sy'n eiddo i berchen-feddianwyr). Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes asesiad llawn wedi'i gynnal gan mai megis dechrau ystyried sut y gallai fframwaith tai digonol weithredu yn ymarferol ar gyfer perchen-feddianwyr yr ydym fel rhan o'r gwaith o ddatblygu polisi.

Mae croestoriadedd rhwng nodweddion gwarchoddedig ac anfantais economaidd-gymdeithasol wedi'i ystyried ar gyfer y diwygiadau arfaethedig. Mewn rhai achosion, gall croestoriadedd greu profiad gwaethybol o wahaniaethu.

Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchoddedig:

Oedran

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

- Pobl hŷn (60 oed neu drosodd).

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn diogelu ac yn hyrwyddo hawliau pobl 60 oed neu drosodd³⁸. Felly, mae effaith y cynigion wedi'i hystyried ar gyfer unigolion 60 oed neu drosodd.

Dylai'r Papur Gwyn gael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn.

Mae poblogaeth Cymru yn tyfu ond mae'n heneiddio ar yr un pryd. Yn ôl data'r cyfrifiad diweddaraf, mae poblogaeth Cymru wedi cynyddu 44,000 ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011. Roedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn y grwpiau oedran hŷn a chanran y boblogaeth a oedd yn 65 oed a throsodd oedd 21.3% (o gymharu â 18.4% yn 2011)³⁹. Mae 87% o bobl dros 65 oed yn berchen ar eu cartref eu hunain, mae 10% mewn tai cymdeithasol ac mae 4% yn y Sector Rhentu Preifat.⁴⁰ Mae'r cynigion ynglŷn â digonolrwydd tai yn ystyried diffinio digonolrwydd tai fel y'i nodir gan feini prawf CESC. Mewn perthynas â digonolrwydd tai ar gyfer pobl hŷn, bydd hyn yn ystyried diogelwch deiliadaeth (ar gyfer y 4% o bobl hŷn sy'n byw yn y Sector Rhentu Preifat ar hyn o bryd), fforddiadwyedd, hygyrchedd (megis sicrhau bod unrhyw addasiadau angenrheidiol wedi'u gwneud i dai), a

³⁸ [Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | LLYW.CYMRU](#)

³⁹ [Amcangyfrifon o'r boblogaeth ac aelwydydd, Cymru - y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

⁴⁰ [Deall-poblogaeth-Cymru-syn-heneiddio.pdf \(comisiynyddph.cymru\)](#)

lleoliad (megis sicrhau bod cyfleusterau cymdeithasol a chyfleusterau gofal iechyd yn hygyrch o gartrefi pobl).

Mae'r Papur Gwyn yn ystyried a ddylai cartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr gael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o sicrhau digonolrwydd tai i bawb, a fydd yn effeithio ar bobl hŷn gan fod y mwyafrif yn byw mewn cartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr. Petai deiliadaethau perchen-feddianwyr yn cael eu cynnwys mewn cynigion i helpu i sicrhau digonolrwydd tai yn y dyfodol, bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn.

Mae demograffeg oedran yn y Sector Rhentu Preifat yn newid. Mae 4% o bobl dros 65 oed yn byw yn y Sector Rhentu Preifat ar hyn o bryd. Dangosodd data ar gyfer Lloegr a gyhoeddwyd gan y SYG fod pobl yng nghanol eu 30au i ganol eu 40au deirgwaith yn fwy tebygol o rentu yn 2017 o gymharu â 1997.⁴¹ Yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd mwy o bobl hŷn yn byw yn y Sector Rhentu Preifat na'r rhai sy'n byw ynddo heddiw. Felly, mae'n debygol y bydd mwy o bobl hŷn yn defnyddio eu pensiwn i dalu rhent neu'n parhau i weithio'n hŷn nag o'r blaen er mwyn gallu fforddio talu eu rhent. Mae'n debygol y gallai fod problemau fforddiadwyedd i bobl hŷn yn y Sector Rhentu Preifat ar oedran pensiwn, a fydd yn gwaethgu dros amser am fod ein poblogaeth yn heneiddio.

Mae'n bwysig ystyried y croestoriadedd rhwng pobl hŷn ac anabledd oherwydd, er mai pobl hŷn sydd fwyaf tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain, mae pobl anabl yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl⁴². Dangosodd tystiolaeth o adroddiad blynyddol Age Cymru fod 28% o bobl hŷn yn nodi bod ganddynt anabledd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb⁴³.

Ymatebodd Gofal a Thrwsio Cymru, sef elusen addasiadau tai sy'n helpu pobl hŷn yn y Sector Rhentu Preifat i fyw'n annibynnol drwy wneud gwaith atgyweirio, addasu a chynnal a chadw ar gartrefi, i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd. Pwysleisiodd Gofal a Thrwsio Cymru bwysigrwydd sicrhau digonolrwydd tai er mwyn creu Cymru oed-gyfeillgar. Yn dilyn ymateb Gofal a Thrwsio Cymru i'r Papur Gwyrdd, gwnaethom wahodd cynrychiolwyr o'r elusen i ymuno â'n Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid allanol ac maent wedi cyfrannu at ddatblygu'r Papur Gwyn drwy gymryd rhan yn y grŵp hwn.

Ymatebodd Age Cymru hefyd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd a nododd fod fforddiadwyedd yn broblem i bobl hŷn, yn enwedig pobl hŷn na allant ymddeol a byw yn y Sector Rhentu Preifat. Nododd hefyd fod pobl hŷn wedi rhoi gwybod i'r elusen fod eu tai mewn cyflwr gwael a bod angen gwneud gwaith atgyweirio arnynt, yn enwedig yn y sector perchen-feddianwyr. Nododd arolwg blynyddol Age Cymru o brofiadau pobl 50 oed neu

⁴¹ [Byw'n hirach – y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk)

⁴² [Anabledd a thai, y DU – y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk)

⁴³ [age-cymru---what-matters-to-you---august-2024.pdf \(ageuk.org.uk\)](https://ageuk.org.uk)

drosodd yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2024, fod bron i chwarter y bobl hŷn wedi nodi bod angen gwneud gwaith atgyweirio ar eu tŷ.⁴⁴

Mae'r cynigion yn cefnogi'r strategaeth i gefnogi pobl hŷn ac ymateb yn effeithiol i'r heriau a wynebir gan lywodraethau o ganlyniad i boblogaethau sy'n heneiddio fel y'u nodir yn Cymru o Blaid Pobl Hŷn.⁴⁵

Bydd y cynigion yn y Papur Gwyn ynglŷn â diwygiadau arfaethedig yn cael effaith anghymesur ar landlordiaid preifat, gan mai pobl hŷn yw cyfran fawr o'r landlordiaid preifat yng Nghymru. Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod yn landlordiaid preifat eu hunain, gyda 27.2% o landlordiaid preifat yng Nghymru yn 55-64 oed a 27.2% yn 65 oed a throsodd.⁴⁶

Er y bydd y cynigion ar gyfer diwygio'r Sector Rhentu Preifat yn cael effaith anghymesur ar landlordiaid preifat hŷn, rhagwelir y dylai'r cynigion gael effaith niwtral. Er enghraifft, gan nad oes unrhyw gynigion yn y Papur Gwyn i gyfyngu ar faint o rent y gall landlord preifat ei godi, rhagwelir na fydd unrhyw effaith negyddol ar allu landlord preifat i elwa o'i fusnes rhentu. At hynny, mae'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i Gofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol gael ei gwblhau yn debygol o gael effaith niwtral, gan y byddai'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid/trwyddedeion lunio adroddiad a fyddai'n cynnwys gwybodaeth y mae eisoes yn ofynnol iddynt gydymffurfio â hi, o dan y gyfraith. Mae'n bosibl y gallai'r gofyniad i lunio'r adroddiad gael ei ystyried yn faich ychwanegol diangen, ond mae'r Papur Gwyn yn nodi mai nod y cynnig yw lleihau'r baich gweinyddol cymaint â phosibl. Rhagwelir y byddai'r baich gweinyddol yn fach.

- Pobl ifanc (18-24 oed)

Nid oes un diffiniad penodol o berson ifanc, ond defnyddir y grŵp oedran 16-24 yn aml. Er enghraifft, mae Gwarant Llywodraeth Cymru i Bobl Ifanc yn cynnig cymorth i unigolion 16-24 oed i gael lle mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth⁴⁷. Mae'r effaith ar bobl ifanc hyd at 18 oed wedi'i hasesu yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn Atodiad A. Mae'r adran hon yn ystyried yr effaith ar bobl ifanc 18-24 oed.

Yng Nghymru, dyblodd cymarebau fforddiadwyedd tai rhwng 1997 a 2005 gan gyrraedd uchafbwynt yn 2007, sef 6.6. Ers hynny, mae fforddiadwyedd prynu tŷ wedi aros rhwng 5.5 a 6.5⁴⁸. Er bod enillion wedi cynyddu, nid ydynt wedi codi yn unol â'r cynnydd mewn prisiau tai. Dengys amcangyfrifon o ran y gymhareb prisiau tai i enillion fod unigolion yn llai tebygol fyth o allu prynu eiddo. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn amcangyfrif, yn y 12 mis hyd at fis Medi 2023 yng Nghymru, mai pris gwerthu tŷ (canolig) cyfartalog

⁴⁴ [age-cymru---what-matters-to-you---august-2024.pdf \(ageuk.org.uk\)](#)

⁴⁵ [Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio – Cymru o Blaid Pobl Hŷn \(llyw.cymru\)](#)

⁴⁶ Data demograffig Rhentu Doeth Cymru

⁴⁷ [Gwarant i Bobl Ifanc | Cymru'n Gweithio \(llyw.cymru\)](#)

⁴⁸ [Fforddiadwyedd tai yng Nghymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

oedd £196,500 ac mai'r enillion amser llawn cyfartalog seiliedig ar y gweithle (canolig) oedd £32,400, sef cymhareb o 6.1⁴⁹. Felly, dylai'r cynigion i ddiwygio'r Sector Rhentu Preifat gael effaith gadarnhaol anghymesur ar bobl ifanc, gan fod pobl ifanc yn llai tebygol o fod yn berchen-feddianwyr ac yn fwy tebygol o fod mewn deiliadaethau tai eraill.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid datblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn ysgogi camau gweithredu i sicrhau digonolrwydd tai yng Nghymru. Mae meini prawf CESCRR yn cynnwys fforddiadwyedd fel un o ffactorau digonolrwydd tai, sy'n berthnasol iawn i bobl ifanc. Mae unigolion yn llai tebygol o allu prynu tŷ nag erioed o'r blaen a bydd mwy o bobl ifanc yn byw yn y Sector Rhentu Preifat gan na allant brynu tŷ. Dylai'r Papur Gwyn gael effaith gadarnhaol gan y bydd strategaeth dai yn mynd i'r afael â fforddiadwyedd ar gyfer pob math o ddeiliadaeth tai tra bydd yr ymyriadau tymor byrrach i dymor canolig yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â fforddiadwyedd, cyfaneddoldeb a hygyrchedd yn y Sector Rhentu Preifat.

Nododd ymchwil gan y Sefydliad Tai Siartredig a'r Sefydliad Iechyd themâu yn ymwneud â phrofiadau pobl ifanc (18-24 oed) o'r Sector Rhentu Preifat. Mae rhai o'r prif themâu o'r adroddiad yn cynnwys y gallu i gael mynediad i'r sector, ansawdd tai a fforddiadwyedd⁵⁰. Nod y cynigion yn y Papur Gwyn ynglŷn â diwygiadau arfaethedig ar gyfer y Sector Rhentu Preifat yw gwella fforddiadwyedd, hygyrchedd a chyfaneddoldeb y Sector Rhentu Preifat.

Mae pobl ifanc hefyd yn fwy tebygol o fod yn cael cyflog isel, gyda'r dystiolaeth yn dangos bod 37% o bobl ifanc 18-24 oed yn cael cyflog isel fesul awr yn 2022. Felly, mae pobl ifanc yn fwy tebygol o fod ar gyflog is ac mae'n fwy tebygol bod heriau o ran fforddiadwyedd yn y Sector Rhentu Preifat yn effeithio arnynt. At hynny, yn achos y rhai sy'n gymwys i wneud cais am fudd-dal tai, dim ond unigolion o dan 35 oed nad ydynt yn byw gyda phartner na'u plant a all wneud cais am ystafell sengl mewn tŷ a rennir⁵¹.

Dylai'r cynnig yn y Papur Gwyn i wella prosesau casglu data ar renti fod yn fuddiol er mwyn meithrin dealltwriaeth well o'r materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd yn y Sector Rhentu Preifat ar gyfer pob demograffeg oedran, gan gynnwys ar gyfer pobl ifanc. Bydd deall materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd yn y Sector Rhentu Preifat yn cefnogi ymyriadau i fynd i'r afael â fforddiadwyedd y Sector Rhentu Preifat yn y dyfodol.

Dylai'r cynnig yn y Papur Gwyn i lunio canllawiau cenedlaethol ar Warantwyr Rhent gael effaith gadarnhaol anghymesur ar bobl ifanc. Mae'r meini prawf cymhwysra arfaethedig yn cynnwys pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac mae tystiolaeth wedi dangos bod pobl ifanc yn wynebu risg uchel o fod yn ddigartref. Er enghraifft, mae ymchwil gan y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid wedi dangos, ymhlith sampl o bobl ddigartref yng Nghymru, fod 59% wedi mynd yn ddigartref am y tro cyntaf cyn eu bod yn

⁴⁹ Fforddiadwyedd tai yng Nghymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

⁵⁰ [young-people-future-health-prs.pdf](https://www.cih.org/young-people-future-health-prs.pdf) (cih.org)

⁵¹ Costau tai a Chredyd Cynhwysol: Rhentu gan landlord preifat – GOV.UK (www.gov.uk)

21 oed.⁵² Ymatebodd End Youth Homelessness Cymru i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd gan nodi y bydd y gwaith o sicrhau 'tegwch' yn y Sector Rhentu Preifat yn cynnwys ystyried goblygiadau cymdeithasol ehangach hygyrchedd tai, gan gynnwys rhwystrau heblaw pris (megis gwarantwyr a blaendaliadau). Felly, dylai'r cynnig gael effaith gadarnhaol anghymesur ar bobl ifanc, gan fod pobl ifanc yn fwy tebygol o fynd yn ddigartref. Dylai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc am mai ei nod yw dileu rhwystr sy'n atal pobl ifanc rhag gallu cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat. At hynny, nod y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr adran ar rentu gydag anifeiliaid anwes yw dileu rhwystrau i gael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat, a ddylai gael effaith anghymesur o fawr ar bobl ifanc.

Dylai'r cynnig i wella'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy drwy ddarparu rhyddhad treth ar gyfer eiddo a brynir ac a ychwanegir at Gynllun Lesio Cymru gael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc. Dengys tystiolaeth bellach gan y SYG fod dros hanner y bobl ledled Cymru a Lloegr sy'n nodi eu bod yn ddigartref rhwng 15 a 35 oed.⁵³ Dylai'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol anghymesur ar bobl ifanc am eu bod yn fwy tebygol o fod ar restr aros am eiddo rhent fforddiadwy.

Bydd y cynnig i'w gwneud yn ofynnol i Gofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol gael ei gwblhau yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc, am fod pobl ifanc yn fwy tebygol o fod yn byw yn y Sector Rhentu Preifat o gymharu â deiliadaethau eraill. Dylai'r cynnig gael effaith gadarnhaol, am mai ei nod yw gwella cyfaneddoldeb y Sector Rhentu Preifat.

Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed

Fel yr amlinellir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, dylai'r Papur Gwyn gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc hyd at 18 oed. Dylai'r mesurau i wella digonolrwydd tai yn y Sector Rhentu Preifat gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc, gan fod lefelau uchel o deuluoedd yn y Sector Rhentu Preifat. Ystyriodd y cynigion yn y Papur Gwyn dystiolaeth a ddarparwyd gan rieni ynglŷn â pha rai o feini prawf CESCER y byddent yn rhoi blaenoriaeth iddynt ar gyfer digonolrwydd tai.

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn **Atodiad A**.

Grwpiau oedran eraill

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn amcangyfrif, yn y 12 mis hyd at fis Medi 2023 yng Nghymru, mai pris gwerthu tŷ (canolig) cyfartalog oedd £196,500 ac mai'r enillion amser llawn cyfartalog seiliedig ar y gweithle (canolig) oedd £32,400, sef

⁵² [Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: canllawiau ar adnabod yn gynnar \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

⁵³ [Pobl sy'n ddigartref, Cymru a Lloegr \(ons.gov.uk\)](#)

cymhareb o 6.1⁵⁴. Oedran cyfartalog prynwr am y tro cyntaf yn y DU yw 32 oed⁵⁵. Dengys data o Gyfrifiad 2021 mai aelwydydd lle roedd person cyswllt y cartref yn 65 oed neu drosodd oedd yn fwyaf tebygol o fod yn berchen ar eu llety eu hunain (73%), mai unigolion 35-49 oed oedd yn fwyaf tebygol o fod yn berchen ar eu llety â rhyw fath o forgais neu fenthyciad (50%) ac mai unigolion 16-34 oed oedd â'r gyfran fwyaf yn y sector rhentu cymdeithasol (21%) neu'r Sector Rhentu Preifat neu'n byw yn ddi-rent (41%)⁵⁶.

At hynny, fel y nodir yn yr adran ar bobl ifanc 18-24 oed, o blith y rhai sy'n gymwys i gael budd-dal tai, dim ond am ystafell sengl mewn tŷ a rennir y gall unigolion o dan 35 oed sy'n byw ar eu pen eu hunain wneud cais⁵⁷.

Dylai'r diwygiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn i wella fforddiadwyedd, cyfaneddoldeb a hygyrchedd y Sector Rhentu Preifat gael effaith anghymesur ar bobl hyd at 35 oed, am fod y bobl hyn yn fwy tebygol o fod yn byw yn y Sector Rhentu Preifat.

Fel y nodir yn yr adran ar effaith y cynigion ar bobl ifanc, dylai'r cynnig i wella'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy gael effaith gadarnhaol anghymesur ar bobl o dan 35 oed, gan fod tystiolaeth yn dangos bod dros hanner y bobl y nodir eu bod yn ddigartref rhwng 15 a 35 oed.⁵⁸

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

- Pobl hŷn (60 oed neu drosodd).

Rhagwelir y dylai'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn yn y Sector Rhentu Preifat ac mewn deiliadaethau tai eraill, er ei bod yn amlwg bod heriau yn gysylltiedig â sut i sicrhau digonolrwydd tai ar gyfer pobl hŷn. Rhagwelir y bydd y cynigion yn cael effaith niwtral ar landlordiaid preifat hŷn. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i asesu effaith y cynigion hyn ac yn ymateb i'r dystiolaeth a geir o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Byddwn yn croesawu ymdrechion i ymgysylltu gan gynrychiolwyr pobl hŷn, gan gynnwys Gofal a Thrwsio Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

- Pobl ifanc (18-24 oed)

Rhagwelir y dylai'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer y Sector Rhentu Preifat gael effaith gadarnhaol anghymesur ar bobl ifanc yn y sector hwnnw, am fod pobl ifanc yn fwy tebygol

⁵⁴ Fforddiadwyedd tai yng Nghymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

⁵⁵ Age of first-time buyers - GOV.UK Ethnicity facts and figures (ethnicity-facts-figures.service.gov.uk)

⁵⁶ Nodweddion cartrefi yn ôl deiliadaeth, Cymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

⁵⁷ Costau tai a Chredyd Cynhwysol: Rhentu gan landlord preifat – GOV.UK (www.gov.uk)

⁵⁸ Pobl sy'n ddigartref, Cymru a Lloegr (ons.gov.uk)

o fod yn byw yn y Sector Rhentu Preifat o gymharu â deiliadaethau eraill. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i asesu effaith y cynigion hyn mewn ymateb i dystiolaeth bellach a geir o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Byddwn yn ystyried effaith cynigion sy'n ceisio dileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat ac aros ynddo, gan y bydd y cynigion hyn yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc.

- Grwpiau oedran eraill

Rhagwelir y dylai'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer y Sector Rhentu Preifat gael effaith gadarnhaol anghymesur ar bobl hyd at 35 oed gan fod y grwpiau hyn yn fwy tebygol o fod yn byw yn y Sector Rhentu Preifat o gymharu â deiliadaethau eraill. Byddwn yn parhau i ystyried effaith y cynigion ar grwpiau oedran eraill.

Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd³ a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol, neu y gallai gael ei ddefnyddio i ddileu'n rhagweithiol, y rhwystrau sy'n anablu pobl â gwahanol fathau o amhariad)

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Yng Nghymru, dengys data'r cyfrifiad ar anabledd mewn aelwydydd fod 29.5% o aelwydydd yn cynnwys un aelod anabl, ac mewn 8.4% o aelwydydd, fod dau unigolyn neu fwy yn anabl yn yr aelwyd⁵⁹. Nod y Papur Gwyn yw gwneud cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai, gan ystyried meini prawf CESCRCR ar gyfer digonolrwydd tai. Mae meini prawf CESCRCR yn cynnwys 'hygyrchedd', sy'n nodi bod yn rhaid i dai digonol fod yn hygyrch i grwpiau dan anfantais, gan gynnwys pobl hŷn a phobl anabl.⁶⁰ Mae angen ystyried croestoriadedd pobl hŷn a phobl anabl, gan fod llawer o bobl hŷn hefyd yn anabl. Er enghraifft, dangosodd adroddiad blynyddol Age Cymru fod 28% o bobl hŷn yn nodi bod ganddynt anabledd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.⁶¹ Mae hefyd yn bwysig ystyried croestoriadedd rhwng anabledd a nodweddion gwarchoddedig eraill. Fel y nodir yn yr asesiad sy'n ymwneud ag oedran, mae'n bosibl y bydd yn debygol y bydd gan bobl hŷn anabledd. At hynny, mae menywod yn fwy tebygol o fod yn anabl na dynion. Yng Nghymru, mae 22.3% o fenywod a 19.8% o ddyonion yn anabl a nododd cyfran uwch o fenywod fod eu hanabledd yn cyfyngu'n sylweddol arnynt na dynion⁶².

Yn ôl data'r cyfrifiad, unigolion yn y grŵp ethnig 'Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig' oedd fwyaf tebygol o nodi eu bod yn anabl (39.1%). Mae ymchwil arall yn nodi bod aelwydydd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain o

⁵⁹ [Anabledd, Cymru a Lloegr - y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

⁶⁰ [General Comment No. 4: The Right to Adequate Housing \(Art. 11 \(1\) of the Covenant\) | Refworld](#)

⁶¹ [age-cymru---what-matters-to-you---august-2024.pdf \(ageuk.org.uk\)](#)

⁶² [Anabledd yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd, Cymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

gymharu â grwpiau ethnig eraill ac yn fwy tebygol o fod yn rhentu yn y Sector Rhentu Preifat neu mewn tai cymdeithasol⁶³. Felly, mae'r cynigion yn debygol o gael mwy o effaith ar Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig anabl.

Mae pobl anabl neu'r rhai sy'n byw mewn aelwyd ag aelod anabl hefyd yn fwy tebygol o fod ar incwm isel o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl⁶⁴.

Fel y nodir yn y Papur Gwyn, mae gweithgareddau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â thai eisoes yn cyfrannu at wella hygyrchedd. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer pobl anabl neu hŷn drwy wahanol raglenni cyllid (gan gynnwys Hwyluso, grantiau ar gyfer cyfleusterau i'r anabl, grantiau ar gyfer addasiadau ffisegol ac addasiadau brys). Mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd strategaeth dai yn y dyfodol yn ystyried i ba raddau y mae'r gwahanol fecanweithiau yn effeithiol o ran sicrhau digonolrwydd tai. Dylai'r cynigion yn y Papur Gwyn i wneud cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai gael effaith gadarnhaol ar bobl anabl, gan y bydd strategaeth dai yn ystyried hygyrchedd ar gyfer pob math o deiliadaeth dai.

Dylai'r cynigion yn y Papur Gwyn i wneud cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai yn y Sector Rhentu Preifat hefyd gael effaith gadarnhaol ar bobl anabl. Bydd y cynnig i gyflwyno Adroddiad Cyflwr Eiddo Blyneddol yn gwella cyfanneddoldeb yn y Sector Rhentu Preifat. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn anelu at ddileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag gallu cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat ac aros ynddo, a allai helpu tenantiaid i symud i eiddo sy'n fwy addas i ddiwallu eu hanghenion o ran hygyrchedd.

Mae'n amlwg nad oes digon o dai hygyrch ym mhob deiliadaeth. Mae tystiolaeth o adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Tai a Phobl Anabl: argyfwng cudd Cymru', yn nodi bod pobl anabl yn wynebu rhestr aros llawer hwy am dai cymdeithasol oherwydd prinder cartrefi cymdeithasol hygyrch⁶⁵. Gallai'r cynnig i gynyddu'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy gael effaith negyddol ar bobl anabl, gan ei bod yn bosibl na fydd yr eiddo a ddarperir gan y cynnig yn hygyrch i bobl anabl.

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

Fel y nodir yn y Papur Gwyn, bydd y cynnig i ddatblygu strategaeth dai yn y dyfodol yn ystyried i ba raddau y mae'r mecanweithiau presennol yn effeithiol o ran sicrhau digonolrwydd tai. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar bobl anabl gan y bydd yn ystyried sut y gellir gwella digonolrwydd tai ar gyfer pob deiliadaeth dai. Bydd y broses o wneud

⁶³ [Gypsy, Roma and Irish Traveller ethnicity summary - GOV.UK Ethnicity facts and figures \(ethnicity-facts-figures.service.gov.uk\)](https://www.gov.uk/ethnicity-facts-figures)

⁶⁴ [Households Below Average Income: an analysis of the UK income distribution: FYE 1995 to FYE 2023 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

⁶⁵ [housing-and-disabled-people-britains-hidden-crisis-executive-summary.pdf \(equalityhumanrights.com\)](https://www.equalityhumanrights.com)

cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai yn ystyried hygyrchedd ac anghenion tai penodol pobl anabl.

Gallai'r cynnig i gynyddu'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy gael effaith negyddol ar bobl anabl, gan ei bod yn bosibl na fydd yr eiddo a ddarperir yn hygyrch i bobl anabl. Mae'r Papur Gwyn yn nodi bod y prinder yn y cyflenwad o dai yn atal cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai. Os caiff deddfwriaeth ei datblygu, mae'n bosibl y bydd yn ystyried sut i gynyddu'r cyflenwad o dai, ond yn fwy penodol sut i gynyddu'r cyflenwad o dai hygyrch i bobl anabl.

Byddwn yn parhau i ystyried y dystiolaeth a ddarperir gan gyrff sy'n cynrychioli pobl anabl wrth inni ddatblygu cynigion i sicrhau digonolrwydd tai ymhellach.

Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Ar y cyfan, mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn niwtral ar sail ailbennu rhywedd. Fodd bynnag, mae'r fframwaith a amlinellir gan CESCRR yn nodi bod yn rhaid i dai fod yn hygyrch i grwpiau dan anfantais ac mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylai strategaeth dai yn y dyfodol ystyried meini prawf CESCRR ar gyfer tai digonol. Bydd unrhyw gynigion pellach hefyd yn ystyried dangosyddion llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ac, felly, byddant yn ystyried sut i sicrhau y gall pobl sy'n trawsnewid a phobl drawsryweddol gael tai digonol.

Prin yw'r data ar brofiadau pobl drawsryweddol o dai yng Nghymru. Cynhaliodd Shelter Cymru astudiaeth o 25 o bobl drawsryweddol yng Nghymru a oedd wedi bod yn ddi-gartref ac er mai sampl fach yw hon, credir mai hon yw un o'r setiau data mwyaf o bobl drawsryweddol ddi-gartref yn y DU⁶⁶.

Ystyrir mai pobl drawsryweddol yw un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas⁶⁷. Mae pobl drawsryweddol yn wynebu lefelau uchel o wahaniaethu oherwydd eu hunaniaeth rhywedd. Mae'r dystiolaeth o 'LGBT in Britain: Trans Report', a gyhoeddwyd gan Stonewall, yn nodi bod un o bob pedwar person trawsryweddol wedi wynebu gwahaniaethu wrth chwilio am dŷ neu fflat i'w rentu (rhentu) neu ei brynu (phrynu).⁶⁸ Dengys tystiolaeth bellach o'r adroddiad hwn fod pobl drawsryweddol yn wynebu gwahaniaethu yn y gwaith. Dengys ymchwil arall fod pobl drawsryweddol yn fwy tebygol o

⁶⁶ [Homelessness-among-trans-people-in-Wales.pdf \(sheltercymru.org.uk\)](https://sheltercymru.org.uk/Homelessness-among-trans-people-in-Wales.pdf)

⁶⁷ [Homelessness-among-trans-people-in-Wales.pdf \(sheltercymru.org.uk\)](https://sheltercymru.org.uk/Homelessness-among-trans-people-in-Wales.pdf)

⁶⁸ [lgbt_in_britain_-_trans_report_final.pdf \(stonewall.org.uk\)](https://stonewall.org.uk/lgbt_in_britain_-_trans_report_final.pdf)

fod ar incwm is ac yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth sefydlog.⁶⁹. Mae'r heriau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd tai yn fwy i bobl drawsryweddol

Dylai'r cynnig yn y Papur Gwyn i ddatblygu canllawiau ar ddarparu Gwarantwr Rhent gael effaith gadarnhaol anghymesur ar bobl drawsryweddol. Prin yw'r ymchwil sydd wedi'i gwneud i bobl sy'n trawsnewid a phobl drawsryweddol yn y Sector Rhentu Preifat. Fodd bynnag, mae tystiolaeth wedi dangos bod un o bob pedwar person drawsryweddol wedi bod yn ddigartref rywbyrd yn ystod eu bywyd.⁷⁰ Nododd tystiolaeth o 'Trans Report' Stonewall hefyd fod 28% o bobl drawsryweddol mewn perthynas wedi wynebu cam-drin domestig gan bartner yn ystod blwyddyn yr arolwg.⁷¹ Nododd ymchwil bellach gan Shelter Cymru mai chwalfa perthynas/chwalfa deuluol a cham-drin domestig oedd un o'r ffactorau a achosodd i bobl drawsryweddol fynd yn ddigartref⁷². Mae'r Papur Gwyn yn cynnig meini prawf cymhwystra i awdurdodau lleol flaenoriaethu'r defnydd o gyllid i gefnogi pobl y mae angen iddynt rentu eiddo yn y Sector Rhentu Preifat ond na allant gael gwarantwr yn y DU. Mae'r meini prawf cymhwystra yn cynnwys pobl sy'n ddigartref neu sydd wedi wynebu cam-drin domestig. Felly, dylai'r cynigion gael effaith anghymesur ar bobl drawsryweddol gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn y grwpiau hyn.

Mae hefyd yn bwysig ystyried y croestoriadedd rhwng pobl drawsryweddol ac oedran. Fel y nodir yn adroddiad Shelter Cymru, 'Homeless among trans people in Wales', mae ymchwil i ddigartrefedd ymhlith pobl drawsryweddol yn aml yn canolbwyntio ar bobl ifanc fel isadran o bobl ifanc LHDT ac, er ei bod yn bwysig meithrin dealltwriaeth well o'r grwpiau hyn, mae angen mwy o ddata ar bobl drawsryweddol mewn grwpiau oedran eraill.

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

Mae pobl sy'n trawsnewid a phobl drawsryweddol yn fwy tebygol o brofi digartrefedd a cham-drin domestig ac maent hefyd yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ansefydlog a bod ar incwm is. Ar y cyfan, dylai'r cynigion yn y Papur Gwyn gael effaith niwtral ar bobl drawsryweddol ond rhagwelir y bydd effeithiau cadarnhaol ar gyfer pobl drawsryweddol oherwydd y croestoriadedd rhwng nodweddion gwarchodedig eraill megis oedran neu am eu bod yn fwy tebygol o fod ar incwm is.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw gynigion pellach yn ystyried yr effaith ar bobl sy'n trawsnewid a phobl drawsryweddol. Byddwn yn ystyried ymatebion i'r Papur Gwyn ynglŷn â'r Cynllun Gwarantwyr Rhent ac yn sicrhau bod y meini prawf cymhwystra yn ystyried grwpiau o bobl y mae'n bosibl yr effeithir arnynt.

⁶⁹ [Homelessness-among-trans-people-in-Wales.pdf \(sheltercymru.org.uk\)](https://sheltercymru.org.uk/Homelessness-among-trans-people-in-Wales.pdf)

⁷⁰ [lgbt_in_britain_-_trans_report_final.pdf \(stonewall.org.uk\)](https://stonewall.org.uk/lgbt_in_britain_-_trans_report_final.pdf)

⁷¹ [lgbt_in_britain_-_trans_report_final.pdf \(stonewall.org.uk\)](https://stonewall.org.uk/lgbt_in_britain_-_trans_report_final.pdf)

⁷² [Homelessness-among-trans-people-in-Wales.pdf \(sheltercymru.org.uk\)](https://sheltercymru.org.uk/Homelessness-among-trans-people-in-Wales.pdf)

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Ar y cyfan, mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn niwtral ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, mae fframwaith CЕСSR ar gyfer digonolrwydd tai yn nodi bod yn rhaid i dai fod yn hygyrch i grwpiau dan anfantais. Bydd unrhyw gynigion pellach hefyd yn ystyried dangosyddion llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ddyletsydd Economaidd-gymdeithasol ac, felly, byddant yn ystyried sut i sicrhau y gall pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol gael tai digonol.

Mae tystiolaeth wedi dangos, o gymharu â phobl nad ydynt yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol nac yn drawsryweddol (LHDT), fod cyfraddau uwch o dlodi, cyfraddau is o berchentyaeth a chyfraddau uwch o ddigartrefedd yn berthnasol i bobl LHDT.⁷³ Nododd adroddiad Stonewall, 'LGBT in Britain – Home and Communities' fod yr heriau parhaus sy'n gysylltiedig â bod yn agored am eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth rhywedd gyda'u teulu neu ffrindiau yn thema allweddol ymhlith pobl LHDT.⁷⁴

Dengys ymchwil fod pobl LHDT yn debygol o wynebu cam-drin domestig. Nododd adroddiad Stonewall, 'LGBT in Britain: Homes and Communities', fod un o bob 10 o bobl LHDT wedi wynebu cam-drin domestig gan bartner yn y flwyddyn ddiwethaf⁷⁵ a bod 18% o bobl LHDT wedi bod yn ddigartref yn ystod eu bywyd⁷⁶. Mae'r cynnig yn y Papur Gwyn i lunio canllawiau cenedlaethol i awdurdodau lleol ar ddarparu Gwarantwr Rhent yn cynnwys meini prawf cymhwysra ar gyfer unigolion sy'n ddigartref neu sydd wedi wynebu cam-drin domestig. Felly, dylai'r cynnig gael effaith anghymesur ar bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Dylai'r cynnig gael effaith sylweddol, am mai ei nod yw dileu rhwystr sy'n atal unigolion rhag gallu cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat.

Mae hefyd yn bwysig ystyried croestoriadedd rhwng pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol a nodweddion gwarchoddedig eraill. Er enghraifft, mae Stonewall yn nodi bod bron i dri o bob 10 o bobl anabl LHDT wedi bod yn ddigartref yn ystod eu bywyd, o gymharu â bron i un o bob 10 o bobl LHDT nad ydynt yn anabl⁷⁷. Mae hefyd yn bwysig ystyried effaith anfantais economaidd-gymdeithasol, fel y nodir yn yr adran ar incwm is isod.

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

⁷³ [LGBT People and Housing Affordability, Discrimination, and Homelessness - Williams Institute \(ucla.edu\)](#)

⁷⁴ [Adroddiad Stonewall: LGBT in Britain - Home and Communities - Equally Ours](#)

⁷⁵ [lgbt_in_britain_home_and_communities.pdf \(stonewall.org.uk\)](#)

⁷⁶ Ibid

⁷⁷ [lgbt_in_britain_home_and_communities.pdf \(stonewall.org.uk\)](#)

Mae gan bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol gyfraddau uwch o dlodi ac maent yn fwy tebygol o wynebu cam-drin domestig a bod yn ddigartref. Ar y cyfan, dylai'r cynigion yn y Papur Gwyn gael effaith niwtral ar bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, ond rhagwelir y bydd effeithiau cadarnhaol oherwydd y croestoriadedd rhwng nodweddion gwarchoddedig eraill megis oedran neu am eu bod yn fwy tebygol o fod ar incwm is.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw gynigion pellach yn ystyried yr effaith ar bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Byddwn yn ystyried ymatebion i'r Papur Gwyn ynglŷn â'r Cynllun Gwarantwyr Rhent ac yn sicrhau bod y meini prawf cymhwystra yn ystyried grwpiau o bobl y mae'n bosibl yr effeithir arnynt.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Beichiogrwydd a mamolaeth

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Gall tai annigonol gael effaith negyddol sylweddol ar iechyd menywod beichiog. Bydd tai anghyfaneddol yn cael effaith negyddol ar y fam a'r plentyn heb ei eni. Gall cartref anniogel hefyd gael effaith negyddol ar lesiant meddyliol y fam feichiog, am fod bod yn feichiog tra'n byw mewn cartref ansicr yn debygol o achosi straen a gofid eithafol.

Gall amodau byw ansicr a chartref anghyfaneddol yn ystod beichiogrwydd gael effaith sylweddol ar iechyd y fam a'r plentyn. Mae ymchwil ryngwladol wedi dangos yn aml fod gan blant mamau beichiog a oedd yn byw mewn cartref ansicr bwysau geni isel neu eu bod wedi cael eu geni cyn amser neu eu derbyn i unedau gofal dwys newyddenedigol neu eu bod wedi gorfod aros yn yr ysbyty am gyfnod estynedig ar ôl cael eu geni neu fod y sefyllfa wedi cael effeithiau negyddol eraill ar eu hiechyd⁷⁸. Mae ymchwil hefyd wedi dangos bod menywod beichiog a oedd yn byw mewn llety dros dro wedi teimlo bod eu sefyllfa fyw wedi cael effeithiau iechyd sylweddol ar eu beichiogrwydd a'u llesiant ôl-enedigol⁷⁹.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig deddfwriaeth ar gyfer tymor y Senedd nesaf a fyddai'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth dai, a allai nodi'r meini prawf a amlinellir gan CESCRR ar gyfer tai digonol. Mae meini prawf CESCRR yn diffinio diogelwch deiliadaeth fel a ganlyn:

Diogelwch cyfreithiol deiliadaeth: nid yw tai yn ddigonol os nad oes gan y sawl sy'n eu meddiannu rywfaint o ddiogelwch deiliadaeth sy'n gwarantu gwarchodaeth gyfreithiol rhag troi allan drwy rym, aflonyddu a bygythiadau eraill.⁸⁰

⁷⁸ [Severe Housing Insecurity during Pregnancy: Association with Adverse Birth and Infant Outcomes - PMC \(nih.gov\)](#)

⁷⁹ [Gwella gofal mamolaeth i fenywod beichiog sy'n ddigartref – Llesiant Menywod](#)

⁸⁰ [General comment No. 4: The right to adequate housing \(art. 11 \(1\) of the Covenant\).](#)

Mae diogelwch deiliadaeth yn hanfodol yn ystod beichiogrwydd am fod angen i famau beichiog gael gofal mamolaeth, megis ymweliadau iechyd gan fydwragedd. Mae ymchwil wedi dangos bod mamau beichiog mewn llety dros dro yn aml yn gorfod symud ar fyr rybudd ac na allant drefnu gofal bydwaig arferol, sganiau na phrofion sgrinio pwysig eraill⁸¹.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi mai ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu strategaeth dai fyddai asesu i ba raddau y mae mecanweithiau presennol (megis ymestyn y cyfnodau hysbysu ar gyfer troi allan heb fai i chwe mis o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016) yn effeithiol o ran ysgogi cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn cynnig y dylid gwella cyfaneddoldeb y Sector Rhentu Preifat drwy sicrhau bod landlordiaid/trwyddedeion yn cwblhau Cofnod Cyflwr Eiddo Blyneddol, a fydd yn cynnwys gweithgareddau y mae eisoes yn ofynnol i landlordiaid/trwyddedeion eu cyflawni, o dan y gyfraith. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fenywod beichiog yn y Sector Rhentu Preifat gan y bydd yn gwella cyfaneddoldeb y sector hwnnw ac yn lliniaru rhai o ganlyniadau iechyd negyddol tai anghyfaneddol.

Bydd y cynnig yn y Papur Gwyn i ddatblygu canllawiau cenedlaethol ar gyfer Cynllun Gwarantwr Rhent yn cael effaith gadarnhaol anghymesur ar fenywod beichiog. Mae'r meini prawf cymhwystra arfaethedig yn rhoi blaenoriaeth i bobl ddigartref a phobl sydd wedi wynebu trais domestig. Rhoddir statws angen blaenoriaethol i fenywod beichiog ar gyfer cymorth digartrefedd⁸². Fel y noda ymchwil gan Cymorth i Ferched, mae menywod beichiog yn debygol o wynebu lefelau uchel o gam-drin domestig yn ystod beichiogrwydd.⁸³ Felly, mae'r cynnig hwn yn debygol o gael effaith anghymesur ar fenywod beichiog, am eu bod yn fwy tebygol o fod wedi'u cynnwys yn y meini prawf cymhwystra, a dylai'r cynnig gael effaith gadarnhaol sylweddol gan mai ei nod yw dileu rhwystr sy'n atal unigolion rhag gallu cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat.

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

Mae canlyniadau tai annigonol ar gyfer menywod beichiog yn cynnwys effeithiau negyddol ar iechyd y fam a'r plentyn heb ei eni. Dengys y data fod cartref sicr yn hanfodol ar gyfer iechyd a llesiant y fam a'r plentyn heb ei eni. Mae meini prawf CESCRC yn cynnwys 'diogelwch deiliadaeth', 'cyfaneddoldeb' ac 'argaeledd gwasanaethau'. Bydd cynigion pellach yn asesu sut i sicrhau tai digonol ar gyfer menywod beichiog, megis sicrhau bod gan fenywod beichiog gartref sicr er mwyn iddynt allu defnyddio gwasanaethau iechyd a byw mewn cartref cyfanheddol er mwyn sicrhau iechyd y fam a'r plentyn

Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod ymgynghori ac yn ystyried effaith y cynigion ar feichiogrwydd a mamolaeth.

⁸¹ Ibid

⁸² [Angen blaenoriaethol – Shelter Cymru](#)

⁸³ [Supporting-women-and-babies-after-domestic-abuse.pdf \(womensaid.org.uk\)](#)

Hil (gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig gwahanol, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Ystyrir bod y Papur Gwyn yn cael effaith niwtral mewn perthynas â hil. Fodd bynnag, mae ein cynigion ynglŷn â sut i sicrhau digonolrwydd tai yn cynnig y dylid datblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn ysgogi cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai. Bydd unrhyw strategaeth dai yn y dyfodol yn ystyried i ba raddau y mae mecanweithiau a/neu ddeddfwriaeth bresennol yn effeithiol o ran hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â nodweddion gwarchoddedig. O ran hil, bydd hyn yn gynnwys ystyried cynnydd tuag at fodloni dangosyddion llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, a sut i sicrhau y caiff polisi tai ei ddatblygu mewn ffordd wrth-hiliol (fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol)⁸⁴.

- Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

Gallai'r cynigion ynglŷn â mesurau i wella digonolrwydd tai yn y Sector Rhentu Preifat gael effaith anghymesur ar unigolion o gefndir Du neu gefndir Ethnig Leiafrifol Du, am fod cyfran fwy o bobl Ddu neu Ethnig Leiafrifol Ddu yn y Sector Rhentu Preifat o gymharu â deiliadaethau eraill⁸⁵. Dylai'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer y Sector Rhentu Preifat gael effaith gadarnhaol sylweddol ar unigolion o gefndir DU neu Ethnig Leiafrifol Du, gan mai nod y cynigion yw gwella fforddiadwyedd a chyfaneddoldeb y Sector Rhentu Preifat, yn ogystal â dileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad i'r sector hwnnw.

Mae data o'r cyfrifiad diweddaraf⁸⁶ yn nodi mai pobl yn y grŵp ethnig lefel uchel 'Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd' oedd leiaf tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain.⁸⁷ Rhentu yn y Sector Rhentu Preifat oedd y math mwyaf cyffredin o ddeiliadaeth dai i bobl yn y grŵp ethnig lefel uchel hwn.⁸⁸ At hynny, pobl o'r grŵp ethnig lefel uchel hwn oedd fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tai rhent cymdeithasol. Fodd bynnag, pobl o'r grŵp 'Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig' oedd fwyaf tebygol

⁸⁴ [Cyflwyniad i Gymru Wrth-hiliol \(llyw.cymru\)](#)

⁸⁵ [Gwahaniaethau grŵp ethnig mewn iechyd, tai, addysg a statws economaidd yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\) \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

⁸⁶ Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) sy'n cynnwys canllawiau ar iaith Wrth-hiliol. Mae'r bwletin hwn yn defnyddio'r categorïau o grwpiau ethnig sy'n cael eu casglu fel rhan o'r cyfrifiad. Nid yw'r categorïau hyn yn cyd-fynd, o reidrwydd, â'r canllawiau hyn.

⁸⁷ [Gwahaniaethau grŵp ethnig mewn iechyd, tai, addysg a statws economaidd yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\) \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

⁸⁸ Ibid

o fod yn berchen ar gartref â morgais a lleiaf tebygol o fod yn byw mewn tai rhent cymdeithasol.⁸⁹

Yn ôl data'r cyfrifiad, unigolion yn y grŵp ethnig 'Grwpiau cymysg neu amlethnig: Gwyn a Du Caribïaidd' oedd y grŵp ethnig mwyaf ond un a oedd yn nodi eu bod yn anabl⁹⁰. Felly, gallai mesurau i wella hygyrchedd tai ar gyfer pobl anabl gael effaith anghymesur ar bobl yn y grŵp ethnig hwn, am fod cyfran fawr o bobl yn y grŵp ethnig hwn sy'n nodi eu bod yn anabl.

Mae fforddiadwyedd yn rhan o feini prawf CESCRR ar gyfer tai digonol, fel yr amlinellir yn y Papur Gwyn. Dengys tystiolaeth gyfraddau uchel o dlodi ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Er enghraifft, mae ymchwil wedi dangos, o blith cyfran y bobl a oedd yn byw mewn tlodi yn 2022/2023, mai'r gyfradd tlodi ar gyfer pobl Ddu yw 40%. Ar gyfer pobl o'r grŵp ethnig Indiaidd, y gyfradd tlodi oedd 24% ac mae'r gyfradd tlodi ar gyfer pobl o'r grŵp ethnig Pacistanaid neu Fangladeshaid fwy na dwywaith yn uwch nag ar gyfer pobl Wyn (sef 48% ar gyfer y naill a 56% ar gyfer y llall)⁹¹. Felly, gallai effaith y cynigion ar bobl ar incwm is gael effaith anghymesur ar bobl o gefndiroedd DU, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, un o'r meysydd sydd i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Sector Rhentu Preifat yw atgyfnerthu'r cymorth i'r rhai ar incwm is er mwyn iddynt allu cael tenantiaethau fforddiadwy⁹².

- Sipsiwn a Theithwyr

Dylai'r cynigion yn y Papur Gwyn i ddatblygu deddfwriaeth ynglŷn â digonolrwydd tai yn ystod tymor y Senedd nesaf gael effaith gadarnhaol ar Sipsiwn a Theithwyr. Fel y nodir yn y Papur Gwyn, mae llawer o weithgareddau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â thai eisoes yn cyfrannu at sicrhau digonolrwydd tai. Mae'r Papur Gwyn yn nodi mai un o'r materion allweddol wrth ddatblygu strategaeth dai fydd asesu i ba raddau y mae gwahanol fecanweithiau yn effeithiol. Mae'r Ddeddf Tai (Cymru) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.⁹³ Mae tystiolaeth o adroddiad y Senedd ar Ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn nodi sawl mater sy'n ymwneud ag argaeledd safleoedd awdurdodau lleol a safleoedd preifat, a materion megis safleoedd awdurdodau lleol sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd amhriodol heb fod o fewn cyrraedd i wasanaethau.⁹⁴ Byddai digonolrwydd tai fel rhan o feini prawf CESCRR yn ystyried bod y ddarpariaeth dai hon yn annigonol.

⁸⁹ Ibid.

⁹⁰ Nodweddion gwarchoddedig yn ôl statws anabledd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

⁹¹ [Inequalities in poverty – Y Sefydliad Iechyd](#)

⁹² [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol \(llyw.cymru\)](#)

⁹³ [Deddf Tai \(Cymru\) 2014 – Nodiadau Esboniadol \(legislation.gov.uk\)](#)

⁹⁴ [Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr \(senedd.cymru\)](#)

At hynny, mae meini prawf CESCER ar gyfer digonolrwydd tai yn nodi bod digonolrwydd diwylliannol yn un o'r meini prawf ar gyfer digonolrwydd tai.⁹⁵ Mae'r meini prawf yn nodi bod yn rhaid i dai a adeiledir gael eu hadeiladu mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw agweddau diwylliannol ar dai yn cael eu haberthu. O ran Sipsiwn a Theithwyr, gallai cynigion yn y dyfodol ystyried sut mae awdurdodau lleol yn asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

Yn ôl data Cyfrifiad 2021, roedd pobl a nododd eu bod yn Sipsiwn ac yn Deithwyr bedair gwaith yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu llety â morgais, benthyciad neu ranberchenogaeth a dwywaith yn fwy tebygol o fod yn byw mewn llety rhent cymdeithasol.⁹⁶ Felly, bydd mesurau yn y dyfodol i wella digonolrwydd tai yn y sector rhentu cymdeithasol a'r Sector Rhentu Preifat yn cael effaith anghymesur ar Sipsiwn a Theithwyr.

Fel y nodir yn yr adran ar anabledd, yn ôl data'r cyfrifiad, unigolion yn y grŵp ethnig 'Gwyn: Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig' sydd fwyaf tebygol o nodi eu bod yn anabl. Felly, bydd mesurau posibl yn y dyfodol i sicrhau bod cartrefi yn fwy hygyrch i bobl anabl, yn cael effaith anghymesur o fawr ar Sipsiwn a Theithwyr. At hynny, unigolion a nododd eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig 'Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig' oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn wael eu hiechyd. Mae iechyd yn aml yn gysylltiedig ag oedran, gyda phobl hŷn yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn wael eu hiechyd, yn ôl data'r cyfrifiad. Fodd bynnag, yr oedran cyfartalog ar gyfer y grŵp ethnig hwn yw 28 oed ac, felly, nid yw'r iechyd gwael yn y grŵp ethnig hwn yn cael ei esbonio gan oedran⁹⁷.

- Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid

Mae mewnfudo yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r anfantais a wynebir gan bobl 'heb hawl i gyllid cyhoeddus'. Mae pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus yn cynnwys ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr a ddaw i'r DU ac y gosodir cyfyngiadau ar eu gallu i gael cyllid cyhoeddus.

Mae 'Cenedl Noddfa', sef y Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yn nodi y gall pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus fod yn agored i amodau tai ansicr am na allant gael cyllid cyhoeddus.⁹⁸

Mae'n bosibl y bydd ein cynnig i ddatblygu canllawiau cenedlaethol ar ddarparu Gwarantwr Rhent yn cynnwys ffoaduriaid yn y meini prawf cymhwystra. Bydd hyn yn cael effaith

⁹⁵ [General Comment No. 4: The Right to Adequate Housing \(Art. 11 \(1\) of the Covenant\) | Refworld](#)

⁹⁶ [Poblogaethau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig, Cymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

⁹⁷ [Gwahaniaethau grŵp ethnig mewn iechyd, cyflogaeth, addysg a thai a ddangosir yng Nghyfrifiad 2021 Cymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

⁹⁸ [Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches \(llyw.cymru\)](#)

gadarnhaol sylweddol ar ffoaduriaid gan y bydd yn dileu rhwystr sy'n eu hatal rhag cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat.

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod ymgynghori ac yn ystyried effaith y cynigion ar hil. Byddwn yn sicrhau bod cynigion pellach yn cyfrannu at gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Crefydd a chred a diffyg cred

Mae cyfeiriadau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 at 'grefydd' a 'chred' yn cynnwys 'diffyg crefydd' a 'diffyg cred'.

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Prin yw'r data ar effaith crefydd, cred a diffyg cred ar y gallu i gael tai digonol. Fodd bynnag, mae meini prawf CDESCR ar gyfer digonolrwydd tai, y mae'r Papur Gwyn yn awgrymu y dylid eu hystyried wrth fesur cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai, yn cynnwys lleoliad a digonolrwydd diwylliannol yn y meini prawf.⁹⁹ Gallai'r meini prawf hyn gael effaith gadarnhaol ar y gallu i arfer crefydd neu gred neu ddewis peidio â dilyn crefydd na chred.

Mae'r meini prawf yn nodi bod yn rhaid i dai digonol fod mewn lleoliad sy'n galluogi pobl i gyrraedd cyfleusterau cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys y gallu i gyrraedd mannau addoli, grwpiau cymunedol seiliedig ar ffydd neu gyfleusterau cymdeithasol eraill lle y gall pobl gymryd rhan mewn arferion crefyddol neu ddiwylliannol neu grwpiau cymunedol nad ydynt yn seiliedig ar ffydd. Mae'r meini prawf yn glŷn â lleoliad hefyd yn ystyried y bydd pobl am fyw mewn ardal hygyrch sy'n agos at rwydweithiau cymdeithasol neu rwydweithiau cymorth o'r tu mewn i'w cymunedau crefyddol neu ffydd. Bydd y meini prawf yn glŷn â digonolrwydd diwylliannol yn ystyried bod tai yn cael eu hadeiladu mewn ffordd sy'n galluogi pobl i fynegi eu hunaniaeth ddiwylliannol ac sy'n darparu amrywiaeth o dai.

Mae data'r cyfrifiad diweddaraf yn nodi bod 46.5% o drigolion yng Nghymru wedi dweud nad oedd ganddynt unrhyw grefydd a bod 43.6% o drigolion wedi disgrifio eu crefydd fel 'Cristion', er i gyfran y boblogaeth a nododd eu bod yn Gristnogion leihau ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru rhwng 2011 a 2021.¹⁰⁰ Yr ymlyniad crefyddol mwyaf wedi hynny yng Nghymru oedd 'Mwslim', sef 2.2% o'r boblogaeth¹⁰¹.

⁹⁹ [General Comment No. 4: The Right to Adequate Housing \(Art. 11 \(1\) of the Covenant\) | Refworld](#)

¹⁰⁰ [Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\) \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

¹⁰¹ Ibid

Nododd 74.10% o landlordiaid preifat yng Nghymru nad oedd ganddynt unrhyw grefydd. Nododd 22.35% eu bod yn Gristnogion.¹⁰²

Ardaloedd trefol oedd yr awdurdodau lleol â'r lefelau uchaf o amrywiaeth grefyddol, gyda Chaerdydd yn cofnodi'r crynodiad uchaf o grwpiau crefyddol heblaw Cristnogaeth.¹⁰³ Felly, fel y nodwyd uchod, bydd ystyried lleoliad fel rhan o ddigonolrwydd tai yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau crefyddol, gan y bydd cynigion pellach yn ystyried sut y gall lleoliad tai effeithio ar grefydd, cred neu ddiffyg cred.

O ran croestoriadedd rhwng crefydd ac oedran, dengys data'r cyfrifiad mai'r rhai a nododd eu bod yn 'Gristion' ledled Cymru a Lloegr oedd â'r oedran cyfartalog hynaf, sef 51 oed, o gymharu â phoblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr¹⁰⁴. Ar y llaw arall, y rhai a ddisgrifiodd eu hunain fel 'Mwslim' oedd â'r oedran cyfartalog ieuaf, sef 27 oed¹⁰⁵. Felly, gallai effaith y cynigion ar bobl hŷn gael effaith anghymesur ar unigolion sy'n nodi eu bod yn Gristnogion. Yn yr un modd, gallai effaith y cynigion ar bobl iau gael effaith anghymesur ar unigolion sy'n nodi eu bod yn Fwslimiaid.

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

Bydd cynnydd pellach o ran sicrhau digonolrwydd tai yn ystyried lleoliad a digonolrwydd diwylliannol tai. Rhoddir ystyriaeth bellach i sut y bydd y broses o wneud cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai yn ystyried effaith crefydd, cred a diffyg cred. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y croestoriadedd rhwng crefydd a nodweddion gwarchodedig eraill ymhellach.

Byddwn yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod ymgynghori ac yn ystyried effaith y cynigion ar grefydd, cred a diffyg cred. Byddwn hefyd yn ystyried effaith croestoriadedd nodweddion gwarchodedig, megis effaith crefydd, hil a rhywedd.

Rhyw

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Ar y cyfan, mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn niwtral ar sail rhyw. Fodd bynnag, bydd agweddau ar y cynigion yn cael effaith wahaniaethol ar ryw, fel y nodir isod.

- Menywod

¹⁰² Data demograffeg landlordiaid Rhentu Doeth Cymru

¹⁰³ Ibid

¹⁰⁴ [Crefydd yn ôl oedran a rhyw, Cymru a Lloegr y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

¹⁰⁵ Ibid

Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, yn seiliedig ar gyflog canolrif yr awr, oedd 11.8% yng Nghymru¹⁰⁶. Felly, mae'n debygol bod gwahaniaeth ar sail rhyw rhwng fforddiadwyedd tai i ddynion a menywod. Yn ôl Sefydliad Bevan, mae 86% o rieni sengl yn famau¹⁰⁷. Gall yr heriau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd tai fod yn sylweddol iawn i famau sengl, gan fod tystiolaeth wedi dangos bod 46% o aelwydydd un rhiant yng Nghymru mewn tlodi rhwng 2017 a 2020¹⁰⁸. Mae tystiolaeth bellach yn nodi, hyd yn oed mewn aelwydydd â dau riant, fod bron i ddwy o bob tair mam yn bennaf cyfrifol am ofal plant, sy'n golygu eu bod yn aml mewn swyddi rhan-amser â chyflog is¹⁰⁹. Felly, mae menywod â phlant yn fwy tebygol o fod ar incwm is ac o wynebu heriau sylweddol o ran fforddiadwyedd yn y sector tai.

Mae'r meini prawf cymhwystra arfaethedig ar gyfer cymorth drwy ddarparu Gwarantwr Rhent yn cynnwys unigolion sydd wedi wynebu cam-drin domestig. Yn ystadegol, mae menywod yn fwy tebygol o wynebu cam-drin domestig na dynion.¹¹⁰ At hynny, fel y nodir yn yr adran ar feichiogrwydd a mamolaeth, mae menywod yn fwy tebygol o wynebu lefelau uchel o gam-drin domestig yn ystod beichiogrwydd. Felly, dylai'r cynnig i ddatblygu canllawiau ar ddarparu Gwarantwr Rhent gael effaith anghymesur ar fenywod. Nod y cynnig yw dileu rhwystr sy'n atal unigolion rhag gallu cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat ac, felly, dylai gael effaith gadarnhaol sylweddol.

Ymatebodd Cymorth i Ferched Cymru i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ar Sicrhau Llwybr tuag at Dai Digonol, gan gynnwys Rhenti Teg a Fforddiadwyedd. Nododd, er bod menywod yn wynebu'r un rhwystrau i gael cartref addas a fforddiadwy, fod y rhwystrau hyn yn cael eu gwaethygu pan fydd unigolion yn dianc rhag cam-drin domestig.

- Dynion

Yn ôl data SYG, mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr digartref yng Nghymru yn ddynion.¹¹¹ Mae'r meini prawf cymhwystra arfaethedig ar gyfer cymorth drwy ddarparu Gwarantwr Rhent yn cynnwys digartrefedd ac, felly, dylai'r cynnig gael effaith anghymesur ar ddynion. Nod y cynnig yw dileu rhwystr sy'n atal unigolion rhag gallu cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat ac, felly, dylai gael effaith gadarnhaol sylweddol.

¹⁰⁶ [Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: 2023 | LLYW.CYMRU](#)

¹⁰⁷ [The link between childcare and poverty – Sefydliad Bevan](#)

¹⁰⁸ Ibid

¹⁰⁹ Ibid

¹¹⁰ [Nodweddion dioddefwyr cam-drin domestig, Cymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

¹¹¹ [Digartrefedd yn y DU - y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

Mae'n bwysig ystyried y croestoriadedd rhwng rhyw ac oedran. Dengys data SYG fod dros hanner y bobl a nododd eu bod yn ddigartref rhwng 15 a 35 oed¹¹². Felly, mae'n bwysig ystyried yr effaith ar unigolion o dan 35 oed a'r rhai ar incwm is.

Gallai'r cynnig i wella'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy gael effaith negyddol ar ddynion sengl. Mae rhestrau aros am eiddo fforddiadwy yn seiliedig ar angen blaenoriaethol sy'n cynnwys byw gyda phlant neu fod yn feichiog ac, felly, rhoddir llai o flaenoriaeth i ddynion sengl na grwpiau â blaenoriaeth uwch. Fodd bynnag, gallai rhai dynion hefyd fod wedi'u cynnwys yn y categori angen blaenoriaethol, megis dynion sy'n ddigartref, felly efallai y bydd angen gwneud rhagor o ymchwil er mwyn asesu'r effaith.

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

Bydd angen gwneud rhagor o ymchwil er mwyn asesu effaith y cynigion ar ddynion a menywod. Fel yr amlinellwyd, mae effeithiau posibl wedi'u nodi ar gyfer dynion a menywod ac mae hefyd yn bwysig ystyried y croestoriadedd rhwng rhyw a nodweddion gwarchodedig eraill, megis oedran. Byddwn yn parhau i ystyried effaith y cynigion yn seiliedig ar ryw a rhywedd ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Priodas a phartneriaeth sifil

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Mae'r nodwedd warchodedig hon yn canolbwyntio ar ddarpariaeth sy'n ymwneud yn benodol â chyflogaeth. Nid yw asesu'r effaith ar briodas a phartneriaeth sifil wedi'i ystyried mewn perthynas â'r cynigion yn y Papur Gwyn gan nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth. Felly, nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol wedi'u nodi.

Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae'r Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyladwy i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. ¹¹³

Nodir effaith y cynigion ar aelwydydd incwm is isod.

Aelwydydd incwm is

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

¹¹² [Pobl sy'n ddigartref, Cymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

¹¹³ [WG42004 Cymru sy'n Fwy Cyfartal Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 \(llyw.cymru\)](#)

Fforddiadwyedd tai yw un o'r agweddau allweddol ar y Papur Gwyn a dylai'r diwygiadau arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar unigolion ar incwm is.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid datblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn ysgogi camau gweithredu i sicrhau digonolrwydd tai, a allai ystyried meini prawf CЕССR ynglŷn â digonolrwydd tai. Un o feini prawf allweddol CЕССR yw fforddiadwyedd. Mae CЕССR yn diffinio eiddo fel cartref annigonol petai cost yr eiddo hwnnw yn peryglu neu'n tansellio mwynhad y meddianwyr o hawliau dynol eraill.

Dylai'r gofyniad yn y Papur Gwyn i'w gwneud yn ofynnol i landlordiaid a/neu asiantiaid trwyddedig ddarparu gwybodaeth am renti gael effaith gadarnhaol ar aelwydydd incwm is. Mae diffyg data ar gost rhenti yn y Sector Rhentu Preifat neu rent gwirioneddol y farchnad. Bydd gwella data rhenti o fudd i bobl ar incwm is yn y Sector Rhentu Preifat gan y bydd yn darparu rhagor o ddata er mwyn inni ddeall effaith cost rhent a chefnogi unrhyw ymyriadau polisi yn y dyfodol i fynd i'r afael â fforddiadwyedd yn y Sector Rhentu Preifat.

Er y bwriedir i'r cynnig i wella data ar renti'r farchnad gael effaith gadarnhaol ar aelwydydd incwm is, gallai'r cynnig gael effaith negyddol. Gallai ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid a/neu asiantiaid trwyddedig ddarparu gwybodaeth am renti leihau swm y Lwfans Tai Lleol fesul Ardal Marchnad Rentu Eang. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid rhannu gwybodaeth am renti â Swyddogion Rhenti. Mae Swyddogion Rhenti yn casglu data ar renti'r farchnad er mwyn llywio'r broses o gyfrifo'r Lwfans Tai Lleol (a elwir hefyd yn fudd-dal tai) fesul Ardaloedd Marchnad Rentu Eang¹¹⁴. Mae cymhwystra pobl i gael y Lwfans Tai Lleol, neu fudd-dal tai, yn dibynnu ar incwm eu haelwyd (ac amgylchiadau eraill, megis oedran neu anabledd). Mae gan Swyddogion Rhenti rôl statudol i gasglu data rhenti er mwyn llywio'r broses o gyfrifo'r Lwfans Tai Lleol ac, ar hyn o bryd, maent yn anelu at gasglu data ar 15% i 20% o denantiaethau yng Nghymru. Os bydd yn ofynnol i landlordiaid ddarparu gwybodaeth am renti a bod cytundeb rhannu data yn cael ei lunio er mwyn i'r wybodaeth hon gael ei rhannu â Swyddogion Rhenti, mae'n bosibl y bydd swm y budd-dal tai y mae gan unigolyn hawl iddo yn lleihau. Er enghraifft, os bydd landlord wedi bod yn codi rhent sydd gryn dipyn yn is na rhent cyfartalog y farchnad ers sawl blwyddyn, a bod y data hyn bellach yn cael eu casglu, gallai leihau rhent cyfartalog y farchnad ar gyfer yr ardal a lleihau swm y budd-dal tai y mae gan unigolyn hawl iddo. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar aelwydydd incwm is, a allai fod yn fwy tebygol o fod yn cael budd-dal tai.

Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio ei bod hefyd yn bosibl bod llawer o landlordiaid yn codi rhent sydd gryn dipyn yn uwch na rhent y farchnad ac, felly, y byddai swm y budd-dal tai y mae gan unigolyn hawl iddo yn cynyddu. Yn yr achos hwn, byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar aelwydydd incwm is. Ar hyn o bryd, nid oes digon o dystiolaeth i nodi a fyddai'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar aelwydydd incwm is a bydd angen ystyried y cynnig hwn ymhellach er mwyn asesu'r risg sy'n gysylltiedig ag ef.

¹¹⁴ Lwfans Tai Lleol | LLYW.CYMRU

Bydd y cynnig i ddatblygu Polisi Gwarantwyr Rhent yn cael effaith gadarnhaol ar aelwydydd incwm is. Bydd y cynnig yn cefnogi pobl o aelwydydd incwm is gan y bydd yn dileu rhwystr sy'n eu hatal rhag gallu cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat

Dylai'r cynnig yn y Papur Gwyn ynglŷn â rhentu ag anifeiliaid anwes gael effaith gadarnhaol ar aelwydydd incwm is sy'n berchen ar anifail anwes, gan y bydd yn dileu'r rhwystr sy'n eu hatal rhag cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar aelwydydd incwm is. Mae'n bosibl bod rhentwyr presennol o aelwydydd incwm is sydd ag anifail anwes eisoes, am fod eu landlord yn caniatáu anifeiliaid anwes yn ei eiddo. Petai'r cynnig hwn yn cael ei gyflwyno, mae'n bosibl y byddai landlordiaid yn gofyn i denantiaid sydd ag anifeiliaid anwes eisoes dalu swm ychwanegol i dalu costau premiwm ychwanegol ar bolisi yswiriant landlordiaid (neu i wneud taliad newydd). - Gallai hon fod yn gost ychwanegol na allant fforddio ei thalu.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn cynnig y dylid darparu rhyddhad treth i'r rhai sy'n prynu eiddo i'w ddefnyddio fel eiddo rhent fforddiadwy o dan reolaeth yr awdurdod lleol (er enghraifft, Cynllun Lesio Cymru). Aseswyd y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar aelwydydd incwm is. Bydd y cynnig yn cynyddu'r cyflenwad o eiddo i bobl ar incwm is, am fod Cynllun Lesio Cymru yn darparu eiddo rhent fforddiadwy ar gyfradd y Lwfans Tai Lleol.

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl, yn eich barn chi?

Prif ffynhonnell cyfraith hawliau dynol yn y DU yw Deddf Hawliau Dynol 1998 a ymgorfforodd y rhan fwyaf o'r hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i gyfraith y DU. Rydym wedi ystyried a fydd y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl ac ym mha ffordd y gallent gael effaith gadarnhaol neu negyddol arnynt ac rydym wedi nodi isod yr effeithiau a ragwelir mewn perthynas ag Erthyglau perthnasol y Ddeddf Hawliau Dynol/Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Erthygl 2 y Ddeddf Hawliau Dynol – Yr hawl i fywyd

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? Beth yw'r rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)?

Disgwylir i'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn gael effaith gadarnhaol ar allu pobl i arfer eu hawl i fywyd (Erthygl 2).

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid datblygu deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau a allai helpu i ddarparu tai digonol i bobl yng Nghymru. Gallai darparu tai digonol gael effaith gadarnhaol ar allu pobl i arfer eu hawl i fywyd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos pobl sy'n ddiartref neu sy'n byw mewn tai annigonol.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod pobl a all gael tai digonol yn byw'n hirach a'u bod yn iachach. Mae'r sefydliad nid er elw, Community Solutions¹¹⁵, sydd wedi'i leoli yn UDA, yn crynhoi'r llenyddiaeth academaidd ar ddiartrefedd ac iechyd fel a ganlyn:

- “People experiencing homelessness have significantly higher rates of mortality and reduced life expectancies.
- The rates of several chronic conditions are significantly higher among people with a history of homelessness.
- Homelessness places individuals at significantly greater risk of infectious disease.
- Individuals experiencing homelessness are disproportionately likely to experience a traumatic brain injury in their lifetime.”

Atgyfnerthir y canfyddiadau hyn gan astudiaethau sy'n ymwneud â chyd-destun Cymru a'r DU. Er enghraifft, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi:

Gall profiad o ddiartrefedd gael effaith sylweddol ar iechyd, gydag unigolion yn aml yn dioddef o iechyd meddwl gwael, salwch corfforol, dibyniaeth ar sylweddau, disgwyliad oes byrrach, a marwolaethau ychwanegol y gellir eu hatal... Mae unigolion sydd â phrofiad personol o ddiartrefedd hefyd yn fwy tebygol o fod yn rheoli cyflyrau iechyd hirdymor lluosog.”¹¹⁶

Dengys ystadegau ar gyfer Cymru a Lloegr y canlynol:

Ymhlith pobl ddiartref, yr oedran cymedrig ar adeg marwolaeth oedd 45.9 oed ar gyfer dynion a 43.4 oed ar gyfer menywod yn 2019; ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr, yr oedran cymedrig ar adeg marwolaeth oedd 76.1 oed ar gyfer dynion a 80.9 oed ar gyfer menywod.¹¹⁷

¹¹⁵ Chimowitz, H. a Ruege, A. (2023) *The Costs and Harms of Homelessness: A Learning Brief Examining the Costs Borne by Individuals, Communities, Systems, and Society, Community Solutions*, a gyhoeddwyd 25 Medi 2023.

¹¹⁶ Song, J., Moreno-Stakoe, C., Grey, C.N.B., Davies, A.R. (2021), *Iechyd unigolion sydd â phrofiad personol o ddiartrefedd yng Nghymru, yn ystod y pandemig COVID-19*, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, tud. 2–3.

¹¹⁷ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) (2020), *Marwolaethau pobl ddiartref yng Nghymru a Lloegr: cofrestrïadau 2019*.

At hynny, nododd astudiaeth ddylanwadol¹¹⁸ o achosion marwolaethau ymhlith pobl ddigartref yn Lloegr fod 'at least one third of homeless people die from readily treatable conditions'.¹¹⁹

Rhagwelir y bydd sicrhau tai digonol hefyd yn fuddiol i bobl sy'n byw mewn tai annigonol. Rhagwelir y bydd y cynigion yn sicrhau bod cartrefi yn fwy diogel. Un o'r ffactorau sy'n rhan o'r fframwaith newydd arfaethedig yw 'cyfaneddoldeb', gyda thai yn cael eu hystyried yn gartrefi annigonol os nad ydynt yn gwarantu diogelwch corfforol nac yn darparu digon o le, yn ogystal â gwarchod y sawl sy'n eu meddiannau rhag yr oerfel, lleithder, gwres, glaw, y gwynt a bygythiadau eraill i iechyd a pheryglon strwythurol. Byddai sicrhau bod cartrefi yn ddiogel yn lleihau'r risgiau i iechyd pobl.

Gallai cael gwared ar dai annigonol hefyd gael effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddwyr y GIG yng Nghymru, waeth beth fo'u statws o ran tai. Dengys y dystiolaeth fod tai o ansawdd gwael yn costio mwy na £95m y flwyddyn i GIG Cymru, oherwydd yr angen i ddarparu triniaeth ar gyfer afiechydon sydd i'w priodoli i effeithiau tai annigonol.¹²⁰ Gallai mynd i'r afael â thai annigonol wella'r gwasanaethau a ddarperir i holl ddefnyddwyr y GIG, gan helpu mwy o bobl i arfer eu hawl i fywyd.

At hynny, mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid cyflwyno gofyniad i landlordiaid ac asiantiaid yn y Sector Rhentu Preifat gwblhau Cofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ac asiantiaid gymryd amrywiaeth o gamau er mwyn sicrhau bod eiddo yn ffit i bobl fyw ynddo, er bod dystiolaeth yn dangos nad yw pob landlord yn bodloni'r gofynion hyn. Rhagwelir y bydd cyflwyno gofyniad i landlordiaid ac asiantiaid gwblhau Cofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol sy'n cadarnhau bod eiddo yn ddiogel yn codi safonau yn y sector, a fydd yn sicrhau bod mwy o eiddo yn y Sector Rhentu Preifat yn ddiogel. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar allu tenantiaid yn y Sector Rhentu Preifat i arfer eu hawl i fywyd.

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ac, felly, nid oes angen datblygu strategaeth lliniaru.

Erthygl 8 – Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth

¹¹⁸ Aldridge, R.W., Menezes, D., Lewer, D., Cornes M., Evans, H., Blackburn, R.M., Byng, R., Clark, M., Denaxas, S., Fuller, J., Hewett, N., Kilmister, A., Luchenski, S., Manthorpe, J., McKee, M., Neale, J., Story, A., Tinelli, M., Whiteford, M., Wurie, F., Hayward, A.C. (2019), '[Causes of death among homeless people: a population-based cross-sectional study of linked hospitalisation and mortality data in England](#)', Wellcome Open Research.

¹¹⁹ UCL Population Health Sciences (2020), '[Improving life expectancy for people experiencing homelessness](#)'.

¹²⁰ Watson, I., MacKenzie, F., Woodfine, L., Azam, S. (2019), '[Gwneud Gwahaniaeth – Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi](#)', Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig)? Beth yw'r rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)?

Rydym wedi ystyried a yw'r cynnigion a nodir yn y Papur Gwyn yn debygol o gael effaith ar allu pobl i arfer eu hawliau o dan Erthygl 8. Er bod Erthygl 8 yn rhoi'r hawl i bobl i gael 'parch at... [eu] cartref', mae canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi'n glir nad yw hyn:

“yn rhoi hawl i chi gael tŷ. Mae'n hawl i fwynhau eich cartref presennol yn heddychlon. Mae hyn yn golygu na ddylai awdurdodau cyhoeddus eich atal rhag mynd i mewn neu fyw yn eich cartref heb reswm da iawn, ac ni ddylent ddod i mewn heb eich caniatâd. Mae hyn yn berthnasol p'un a ydych yn berchen ar eich cartref ai peidio.”

Felly, er bod y Papur Gwyn yn cynnig y dylid datblygu deddfwriaeth mewn perthynas â thai, nid ydym yn disgwyl i'r cynnigion gael effaith gadarnhaol na negyddol ar allu pobl i arfer eu hawl o dan Erthygl 8.

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ac, felly, nid oes angen datblygu strategaeth lliniaru.

Erthygl 14 – Gwahardd gwahaniaethu

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? Beth yw'r rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)?

Mae Erthygl 14 yn nodi y gall unigolion ddisgwyl arfer yr hawliau a'r rhyddidau a nodir yn y confensiwn heb wynebu achosion o wahaniaethu. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi bod gwahaniaethu yn digwydd pan fydd unigolyn yn cael ei drin ‘...yn llai ffafriol na pherson arall mewn sefyllfa debyg ac ni ellir cyfiawnhau'r driniaeth hon yn wrthrychol ac yn rhesymol’.¹²¹ Disgwylir i'r cynnigion a nodir yn y Papur Gwyn gael effaith gadarnhaol ar allu pobl i arfer eu hawl i beidio â wynebu achosion o wahaniaethu.

Mae'r cynnig i gyflwyno deddfwriaeth sy'n gwneud darpariaeth a fyddai'n helpu i sicrhau digonolrwydd tai i bawb yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig a allai wynebu gwahaniaethu yng nghyd-destun cael tai. Byddai'r deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth dai, a rhagwelir y bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar sicrhau digonolrwydd tai fel y'i diffinnir gan saith ffactor digonolrwydd tai'r Cenhedloedd Unedig. Un o'r ffactorau hyn yw 'Hygyrchedd: nid yw tai yn ddigonol os nad yw anghenion penodol grwpiau difreintiedig ac wedi'u hymyleiddio yn cael eu hystyried'. Er mai mater i Weinidogion Cymru fyddai

¹²¹ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2024), 'Erthygl 14: Amddiffyn rhag gwahaniaethu'.

penderfynu ar gynnwys unrhyw strategaeth o'r fath, mae'n rhesymol disgwyl iddynt gynnwys mewn unrhyw strategaeth o'r fath fesurau i helpu pobl â nodweddion gwarchoddedig gael cartref digonol. Rhagwelir y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar allu pobl i arfer eu hawliau o dan Erthygl 14.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n werth nodi, wrth ddatblygu'r Papur Gwyn hwn, fod y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol¹²² a'r ddyletswydd cydraddoldeb wedi'u hystyried.¹²³

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ac, felly, nid oes angen datblygu strategaeth lliniaru.

Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? Beth yw'r rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)?

Rydym wedi ystyried a yw'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn debygol o gael effaith ar allu pobl i arfer eu hawliau o dan Erthygl 1 o Brotocol 1. Mae Erthygl 1 o Brotocol 1 yn amddiffyn hawl pobl i fwynhau eu heiddo yn heddychlon. Mae hyn yn cynnwys cartrefi pobl ac adeiladau eraill y gall pobl fod yn berchen arnynt a ddefnyddir fel anheddau neu y gellid eu defnyddio fel anheddau. Mae canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi na all 'awdurdod cyhoeddus gymryd eich eiddo i ffwrdd, na gosod cyfyngiadau ar ei ddefnydd, heb reswm da iawn'.¹²⁴

Ni ddisgwylir i'r cynnig yn y Papur Gwyn i ddatblygu deddfwriaeth (ymhlith mesurau eraill) er mwyn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyhoeddi strategaeth dai, effeithio ar allu pobl i arfer eu hawliau o dan Erthygl 1 o Brotocol 1. Byddai'r deddfwriaeth arfaethedig yn gosod rhwymedigaethau ar Weinidogion Cymru yn hytrach nag aelodau o'r cyhoedd ac ni ragwelir y byddai'r camau a gymerid gan Weinidogion Cymru wrth arfer y dyletswyddau hyn yn effeithio ar hawliau pobl o dan Erthygl 1 o Brotocol 1.

Ystyriwyd a fydd y cynigion a nodir yn y bennod yn y Papur Gwyn sy'n ymdrin â 'Rhenti Teg a Fforddiadwyedd yn y Sector Rhentu Preifat' yn effeithio ar allu pobl i arfer eu hawliau o dan Erthygl 1 o Brotocol 1. Ni ddisgwylir i'r cynigion hyn gael unrhyw effaith.

¹²² [Cymru Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol | LLYW.CYMRU](#)

¹²³ [Deddf Cydraddoldeb 2010 \(legislation.gov.uk\)](#)

¹²⁴ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2024), [Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf: Diogelu eiddo](#).

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ac, felly, nid oes angen datblygu strategaeth lliniaru.

Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir

Mae Rhan 2 o Gytundeb Ymadael y DU â'r UE, ynghyd â'r Cytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau'r AEE-EFTA a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir ("Cytundebau Hawliau Dinasyddion") yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, yr AEE¹²⁵ a'r Swistir a oedd yn preswyllo'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y diogelir eu hawliau fel dinasyddion.

Caiff Cytundebau Hawliau Dinasyddion eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.¹²⁶

Ar y cyfan, bydd unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn parhau i fod â'r un hawliau i weithio, astudio, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael budd-daliadau, i'r graddau bod yr hawliau hyn wedi deillio o aelodaeth y DU o'r UE yn ogystal â'i chyfranogiad yng Nghytundeb yr AEE a Chytundeb Rhyddid Pobl i Symud rhwng yr UE a'r Swistir.

Yn ddarostyngedig i rai eithriadau cyfyngedig¹²⁷, bydd angen i unigolion fod wedi gwneud cais am statws preswyllydd newydd (naill ai statws preswyllydd cyn-sefydlog neu statws preswyllydd sefydlog) drwy'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o'r fath oedd 30 Mehefin 2021.

- Ydych chi wedi ystyried a fydd eich cynnig polisi yn effeithio ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir y diogelir eu hawliau gan Gytundebau Hawliau Dinasyddion?

Ar y cam hwn yn y broses o ddatblygu polisi, ni ddisgwylir i'r cynigion polisi yn y Papur Gwyn effeithio ar ddinasyddion yr UE, yr AEE na'r Swistir y diogelir eu hawliau gan Gytundebau Hawliau Dinasyddion.

- A allai gael effaith negyddol ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir? Sut y caiff unrhyw effeithiau o'r fath eu dileu neu eu rheoli, os ystyrir eu bod yn briodol eu rheoli?

¹²⁵ Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yn cynnwys gwledydd yr UE yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

¹²⁶ Adranau 5 a 6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

¹²⁷ E.e. os oes gan unigolyn ddinasyddiaeth Wyddelig (gan gynnwys dinasyddiaeth Brydeinig a Gwyddelig ddeuol) neu os oedd ganddo ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU)

Ar y cam datblygu hwn, nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi ond wrth i'r gwaith o ddatblygu polisi barhau yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl hynny, byddwn yn parhau i asesu effeithiau posibl.

- A oes angen cyngor cyfreithiol?

Nid oes angen cyngor cyfreithiol ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynigion ar gyfer deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon.

Preswyllo – yr hawl i breswyllo a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswyllo: hawliau i adael gwlad a dod i mewn iddi, ceisiadau am statws preswyllydd, cyfyngiadau ar hawliau i ddod i mewn i wlad a phreswyllo;

Ni nodwyd unrhyw effeithiau.

Cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);

Ni nodwyd unrhyw effeithiau.

Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd

Ni nodwyd unrhyw effeithiau.

Triniaeth gyfartal – mae hyn yn cwmpasu dim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr

Ni nodwyd unrhyw effeithiau.

Hawliau gweithwyr – Ar y cyfan, gwarantir yr un hawliau i weithwyr a phobl hunangyflogedig sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion ag a oedd ganddynt pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt yr hawl i beidio â wynebu gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd a'r hawl i gael triniaeth gyfartal â gwladolion y DU

Ni nodwyd unrhyw effeithiau.

C. ASESAD EFAITH PRAWFESUR GWLEDIG

1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig.

Gall fod yn anos i unigolion gael cartref digonol mewn ardaloedd gwledig. Mae'r prinder yn cyflenwad o dai yn broblem ledled Cymru ond gall fod yn waeth mewn ardaloedd gwledig. Mae'r Papur Gwyn yn cydnabod bod y prinder yn y cyflenwad o dai yn un o'r rhwystrau o ran sicrhau digonolrwydd tai. Dengys ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree fod problemau tai yng Nghymru yn cael eu gwaethygu mewn ardaloedd gwledig, megis lefelau uwch o ddigartrefedd, problemau fforddiadwyedd a phrinder tai cymdeithasol¹²⁸. Mae ymchwil o'r adroddiad, *Generating Growth in the Rural Economy: an inquiry into rural productivity in Wales 2024*, a gyhoeddwyd gan y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Twf Gwledig, hefyd yn tynnu sylw at yr angen am ragor o dai yng nghefn gwlad¹²⁹. Mae'r materion sy'n ymwneud â digonolrwydd tai mewn ardaloedd gwledig yn aml yn berthnasol i gymunedau Cymraeg, gan fod llawer o'r cymunedau hyn wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig yn y gogledd a'r gorllewin.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid datblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn sefydlu fframwaith a fydd yn ysgogi camau gweithredu i sicrhau tai digonol. Cynigir y byddai'r ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth dai. Byddai'r strategaeth dai hon yn ystyried sut i sicrhau digonolrwydd tai a'i fesur yn erbyn fframwaith Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (CESCR). Agwedd allweddol ar ddigonolrwydd tai o dan fframwaith CESCR yw lleoliad, sy'n nodi bod yn rhaid i dai fod mewn lleoliad sy'n galluogi pobl i fanteisio ar opsiynau gwaith a gwasanaethau gofal iechyd, ysgolion a gwasanaethau hanfodol eraill¹³⁰.

Mae'r gallu i fesur effaith y cynigion ar ardaloedd gwledig yn gyfyngedig ar y cam hwn yn y broses o ddatblygu polisi. Fodd bynnag, dylai defnyddio fframwaith CESCR i fesur digonolrwydd tai gael effaith gadarnhaol ar ardaloedd gwledig gan y dylai'r meini prawf ynglŷn â lleoliad ganolbwyntio ar y prif heriau sy'n gysylltiedig â sicrhau digonolrwydd tai mewn ardaloedd gwledig.

¹²⁸ [Rural housing in Wales | Sefydliad Joseph Rowntree \(jrf.org.uk\)](https://www.jrf.org.uk)

¹²⁹ [Generating Growth – CPG report English ONLINE – 050324 \(cla.org.uk\)](https://www.cla.org.uk)

¹³⁰ [General Comment No. 4: The Right to Adequate Housing \(Art. 11 \(1\) of the Covenant\) | Refworld](https://www.refworld.org)

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi mai mater allweddol i'w ystyried yng nghyd-destun datblygu strategaeth dai fydd asesu i ba raddau y mae mecanweithiau presennol yn effeithiol o ran ysgogi cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol gan y bydd yn darparu dull strategol o asesu sut i sicrhau digonolrwydd tai mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu 'craidd gofynnol' ar gyfer defnyddio fframwaith CESC*R* i sicrhau digonolrwydd tai. Mae'r papur yn nodi y gallai fod angen ystyried y cyd-destun lleol wrth fynd ati i sicrhau digonolrwydd tai gan y bydd heriau gwahanol yn gysylltiedig â bodloni gofynion meini prawf CESC*R* (megis y stoc dai bresennol ac argaeledd gwasanaethau hanfodol).

Mae 'fforddiadwyedd' hefyd yn un o feini prawf CESC*R*¹³¹. Dengys tystiolaeth y gall costau tai fod yn uchel iawn mewn rhai ardaloedd gwledig. Fel y nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, mae heriau o ran fforddiadwyedd yn aml i'w cael mewn ardaloedd â lefelau uchel o dwristiaeth ac ail gartrefi. Mae cynllun peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd Dwyfor yng Ngwynedd, sy'n dal i fynd rhagddo, wedi'i leoli mewn cymunedau gwledig Cymraeg. Dewiswyd Dwyfor oherwydd y dwysedd uchel o ail gartrefi a llety gwyliau byrdymor a'r effaith y gallai hyn fod yn ei chael ar gymuned wledig Dwyfor. Mae'r cynllun peilot yn casglu mwy o dystiolaeth er mwyn cefnogi ymyriadau polisi yng nghefn gwlad Cymru yn y dyfodol. Dylai'r Papur Gwyn hwn gael effaith gadarnhaol ar ardaloedd gwledig, gan y bydd strategaeth dai yn y dyfodol yn asesu effeithiolrwydd mecanweithiau presennol, megis cynllun peilot Dwyfor. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn amlinellu cynigion ar gyfer ymyriadau byrdymor i dymor canolig er mwyn gwneud cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai yn y Sector Rhentu Preifat. Ar y cam hwn yn y broses o ddatblygu polisi, aseswyd y bydd y cynigion hyn yn cael effaith niwtral ar ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, gallai'r cynnig i lunio mapiau gofodol o renti'r farchnad nodi pocedi o anfforddiadwyedd cymharol yn y Sector Rhentu Preifat mewn rhannau penodol o Gymru. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar ardaloedd gwledig, gan y bydd yn darparu rhagor o ddata ar heriau o ran fforddiadwyedd ac yn cefnogi unrhyw ymyriadau polisi posibl yn y dyfodol.

Ar y cam hwn yn y broses o ddatblygu polisi prin yw'r dystiolaeth i allu nodi'r effaith ar ardaloedd gwledig. Bydd angen gwneud rhagor o waith ymgysylltu yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori er mwyn datblygu cynigion polisi ymhellach.

Tystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiad

Ym mis Mehefin 2023, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ar sicrhau llwybr tuag at dai digonol, gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd, er mwyn cefnogi'r

¹³¹ [General Comment No. 4: The Right to Adequate Housing \(Art. 11 \(1\) of the Covenant\) | Refworld](#)

gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn. Cawsom sawl ymateb i'r Papur Gwyrdd gan randdeiliaid a ddarparodd dystiolaeth mewn perthynas ag ardaloedd gwledig.

Nododd y Papur Gwyn y gallai fod angen ystyried y cyd-destun lleol wrth ddatblygu 'craidd gofynnol' tuag at fodloni'r ffactorau digonolrwydd tai a amlinellir gan fframwaith CESC. Mae Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol (CCAV) yn nodi y gall rhai pobl ddewis byw mewn ardaloedd gwledig a pheidio â bod yn agos at wasanaethau cyhoeddus ac y gallai fod angen i'r fframwaith ystyried gwahaniaethau daearyddol. Ymatebodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, sef sefydliad aelodaeth i berchnogion tir, eiddo a busnesau yng nghefn gwlad Cymru a Lloegr, hefyd i'r Papur Gwyrdd. Nododd fod y prinder yn y cyflenwad o dai yn ddifrifol iawn mewn ardaloedd gwledig. Nododd hefyd y byddai angen i unrhyw fecanweithiau a fyddai'n cael eu cyflwyno i wneud cynnydd tuag at sicrhau tai digonol, ystyried yr effaith ar ardaloedd gwledig hefyd am fod 'ardaloedd gwledig yn cael eu gadael ar ôl yn rhy aml'¹³².

Byddwn yn parhau i asesu effaith y cynigion ar ardaloedd gwledig ac yn ystyried sut i ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid sy'n meddu ar wybodaeth am yr heriau sy'n gysylltiedig â sicrhau tai digonol mewn ardaloedd gwledig.

¹³² Creu llwybr tuag at dai digonol gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd | LLYW.CYMRU


E. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu hefyd wedi'i gynnwys yn un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisiau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae [strategaeth Cymraeg 2050](#) yn cynnwys tair thema gydgyssylltiedig:



1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):
06/09/2024
2. A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – [Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr](#) a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026?
[Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026](#)

Dylai'r Papur Gwyn gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid datblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn sefydlu fframwaith i sicrhau tai digonol, gan ystyried fframwaith CЕСCR. Un o'r meini prawf ar gyfer tai digonol yn fframwaith CЕСCR yw 'lleoliad'. Mae fframwaith CЕСCR yn nodi bod yn rhaid i dai fod mewn lleoliad sy'n galluogi pobl i fanteisio ar opsiynau gwaith, gwasanaethau gofal iechyd, ysgolion a chyfleusterau cymdeithasol eraill.¹³³ Mae demograffeg siaradwyr Cymraeg yn amrywio mewn gwahanol rannau o Gymru ac rydym hefyd yn cydnabod bod anghenion economaidd-gymdeithasol ac anghenion ieithyddol ein cymunedau yn amrywio ledled Cymru. Felly, bydd yn bwysig ystyried lleoliad tai a'r effaith y gall ei chael ar y Gymraeg. Dengys data'r cyfrifiad fod 538,296 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.¹³⁴ Ceir y ganran amcangyfrifedig uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd (64.3%), Ynys Môn (55.8%) Ceredigion (45.3%) a Sir Gaerfyrddin (39.9%)¹³⁵. Mae 'fforddiadwyedd' hefyd yn un o'r meini prawf sydd wedi'u cynnwys yn fframwaith CЕСCR ac yn un o'r ystyriaethau yn y Papur Gwyn. Mae heriau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd wedi'u nodi mewn cymunedau Cymraeg ac, yn hanesyddol, mae llawer o ardaloedd arfordirol wedi bod yn gyrchfan deniadol i brynwyr ail gartrefi. Rydym hefyd yn ymwybodol bod problemau sy'n ymwneud â fforddiadwyedd yn her ledled Cymru. Yn benodol, rydym yn cydnabod bod rhai cymunedau ôl-ddiwydiannol yn y gogledd a'r gorllewin (h.y. Dyffryn Ogwen a Dyffryn Aman) ymhlith cadarnleoedd y Gymraeg lle mae bwch mawr rhwng incymau lleol a chymarebau prisiau tai yn yr ardal.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi mai mater allweddol i'w ystyried yng nghyd-destun datblygu strategaeth dai yn y dyfodol fydd asesu i ba raddau y mae mecanweithiau presennol yn effeithiol o ran ysgogi cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai. Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu'r mesurau presennol sydd ar waith sy'n helpu i fodloni meini prawf CЕСCR ar

¹³³ [General Comment No. 4: The Right to Adequate Housing \(Art. 11 \(1\) of the Covenant\) | Refworld](#)

¹³⁴ [Gallu pobl tair oed neu hŷn i siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn oedran, 2011 a 2021 \(llyw.cymru\)](#)

¹³⁵ [Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Hydref 2022 i Fedi 2023 | LLYW.CYMRU](#)

gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys y nod o greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae gweithgareddau i helpu i ddiogelu'r Gymraeg yn cynnwys polisi cynllunio, wedi'i lywio gan *Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040*¹³⁶. Mae'r cynllun yn nodi bod yn rhaid i gynlluniau datblygu strategol a lleol ystyried sut i sicrhau bod swyddi a chartrefi ar gael fel y gall y Gymraeg barhau'n ganolog i hunaniaeth y cymunedau hyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu'r Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg y bwriedir iddo fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan gymunedau Cymraeg lle ceir nifer mawr o ail gartrefi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o ymyriadau sydd ar gael yn genedlaethol, yn ogystal â chynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor, er mwyn darparu rhagor o fecanweithiau i allu rheoli nifer mawr o ail gartrefi a llety gwyliau byrdymor yn well¹³⁷. Fel rhan o waith ar gynllun peilot Dwyfor, mae Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â Chyngor Gwynedd, wedi cynnal dadansoddiad manwl o ddata fforddiadwyedd lleol. Mae'r dadansoddiad wedi dangos, yn ôl y disgwyl, y gall fforddiadwyedd tai cymharol amrywio'n fawr rhwng ardaloedd cynghorau cymuned gwahanol mewn un ardal awdurdod lleol. Mae'r cynllun peilot yn destun gwerthusiad annibynnol parhaus. Bwriedir hefyd ymestyn y dull hwn o ymdrin â data y tu hwnt i'r cynllun peilot. Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd ddull diwygiedig o gynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol. Am y tro cyntaf, roedd y dull hwn o weithredu hefyd yn cynnwys asesiad ar gyfer Tai'r Farchnad a ffocws ar feysydd polisi allweddol gan gynnwys effeithiau'r Gymraeg ac ail gartrefi ar anghenion tai, yn ogystal â chymharol adolygu a chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Mae'r Papur Gwyn yn ystyried sut y caiff y cyd-destun lleol ei ystyried. Bydd hyn yn bwysig nid yn unig yng nghyd-destun cynaliadwyedd y Gymraeg ond hefyd wrth ystyried sut y gallai fframwaith digonolrwydd tai yn y dyfodol gael ei ddefnyddio mewn rhannau gwahanol o Gymru er mwyn ystyried ffactorau lleol. Nodir yr asesiad o effaith y Papur Gwyn ar gymunedau gwledig yn yr Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig yn **Atodiad C**.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn amlinellu cynigion ar gyfer ymyriadau byrdymor i dymor canolig er mwyn gwneud cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai yn y Sector Rhentu Preifat. Ar y cam hwn yn y broses o ddatblygu polisi, aseswyd y bydd y cynigion yn cael effaith niwtral ar y Gymraeg. Fodd bynnag, gallai'r cynnig i lunio mapiau gofodol o renti'r farchnad nodi pocedi o anfforddiadwyedd cymharol yn y Sector Rhentu Preifat mewn rhannau penodol o Gymru. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, gan fod heriau o ran fforddiadwyedd eisoes wedi'u nodi mewn cymunedau Cymraeg penodol a bydd data pellach yn cefnogi unrhyw ymyriadau posibl yn y dyfodol mewn perthynas â fforddiadwyedd.

¹³⁶ Llywodraeth Cymru (2021), [Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040](#)

¹³⁷

Bydd angen gwneud rhagor o waith ymgysylltu yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori er mwyn datblygu cynigion polisi ymhellach. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn Is- adran y Gymraeg yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg eu hystyried.

Tystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiad

Ym mis Mehefin 2023, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ar sicrhau llwybr tuag at dai digonol, gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd, er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn.

Ymatebodd Cyngor Tref Aberystwyth, Cymdeithas yr Iaith a Chomisiynydd y Gymraeg i'r Papur Gwyrdd, ac rydym wedi defnyddio eu cyfraniadau wrth ddatblygu'r Papur Gwyn. Nododd Cyngor Tref Aberystwyth yr heriau o ran fforddiadwyedd yn yr ardal leol sydd wedi arwain at sefyllfa lle na all pobl ifanc fforddio prynu cartref yn yr ardal a materion cysylltiedig megis cartrefi gwag, ail gartrefi a rôl Aberystwyth fel cyrchfan i dwristiaid. Nododd Cyngor Tref Aberystwyth hefyd fod rhai o'r farn bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn niweidio cymunedau a'r Gymraeg.

Gofynnodd y Papur Gwyrdd i ymatebwyr roi eu barn ar effaith yr ymgynghoriad ar y Gymraeg. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gweld y materion fel pethau cwbl wahanol.¹³⁸ Fodd bynnag, roedd y prif safbwyntiau ynghylch y cysylltiad rhwng y Papur Gwyrdd a'r Gymraeg yn cynnwys materion yn ymwneud â'r heriau y mae siaradwyr Cymraeg yn eu hwynebu o ran fforddio byw mewn cymunedau Cymraeg a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gynaliadwyedd ein hiaith a diwylliant Cymru. Nodwyd mai'r prif reswm dros broblemau fforddiadwyedd oedd effaith perchnogaeth ail gartrefi mewn cymunedau lle mae mwyafrif y boblogaeth yn siarad Cymraeg. Rydym wedi ymdrin â'r pryderon hyn fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Papur Gwyn ac wedi cyflwyno newidiadau sylweddol o ran y ffordd y caiff nifer yr ail gartrefi ei reoli yn y dyfodol, gan gynnwys mewn ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol. Fel y nodwyd uchod, bydd angen i unrhyw fframwaith digonolrwydd tai yn y dyfodol asesu effeithiolrwydd mesurau presennol (megis y rhaglen waith bresennol sy'n ymwneud â pherchnogaeth ail gartrefi, llety gwyliau byrdymor a chartrefi gwag) er mwyn gwneud cynnydd tuag at sicrhau digonolrwydd tai.

¹³⁸ [Templed Ymgynghoriad \(llyw.cymru\)](#)

F. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Ystyriwch Gwestiynau 1 – 9 ar gyfer POB polisi:

Ymgorffori bioamrywiaeth

1. Sut bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i'r broses o wneud penderfyniadau?

- Ydych chi wedi ystyried yr effeithiau a'r cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth yn ystod camau cynnar y broses o feddwl neu ddylunio prosiect?
- Pa effeithiau fydd caffael yn eu cael ar fioamrywiaeth, gan gynnwys bioamrywiaeth fyd-eang?
- A yw'r cynhyrchion yn dod o ffynonellau cynaliadwy?
- A yw eich prosiect yn cynnwys defnyddio deunyddiau neu arferion sy'n niweidiol i fioamrywiaeth?
- A yw'n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid a buddiolwyr ystyried yr effeithiau a'r cyfleoedd ar gyfer gweithredu cadarnhaol dros fioamrywiaeth yn ystod camau cynnar y broses o feddwl a dylunio prosiectau?
- A yw ystyried bioamrywiaeth yn un o ofynion ceisiadau am gyllid a manylebau prosiectau?
- A yw eich gwerthusiad o'r rhain yn ceisio sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella?

Ni fydd y Papur Gwyn yn cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth. Nid yw'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid defnyddio deunyddiau nac arferion sy'n niweidiol i fioamrywiaeth.

2. A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau busnes?

- A yw wedi ystyried costau oes gyfan sy'n cynnwys gwerth bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol yn y dadansoddiad cost a budd, hyd yn oed os yw hon yn broses anffurfiol?
- Ydych chi wedi meddwl sut gall gwella bioamrywiaeth helpu i gyflawni ar draws gweithgareddau Llywodraeth Cymru, er enghraifft, i gefnogi gweithgareddau hamdden egnïol, addysg, atal llifogydd, a thyfu bwyd yn lleol? (Er enghraifft, mae toeau gwyrdd yn helpu i ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt, lleihau'r defnydd o ynni a gwella systemau draenio.)
- A yw wedi ystyried costau hirdymor dirywiad mewn bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol, a'r potensial ar gyfer arbedion ar gyfer iechyd a llesiant, perygl llifogydd ac ati?
- A all annog partneriaid a buddiolwyr i ystyried y costau a'r arbedion hyn?

Ni fydd y Papur Gwyn yn cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth. Felly, nid oes unrhyw gostau i'w hystyried mewn perthynas â dirywiad bioamrywiaeth nac adnoddau naturiol.

3. Sut mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?

- Allwch chi weithio gyda phartneriaid a buddiolwyr i hyrwyddo dealltwriaeth o fioamrywiaeth?
- Allwch chi hyrwyddo manteision mynediad at fioamrywiaeth drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus megis gofal cymdeithasol, datblygu cymunedol, iechyd a hamdden?
- Allwch chi ddarparu, neu ddod o hyd i, hyfforddiant arbenigol lle bo angen?
- Allwch chi gysylltu â strategaethau a mentrau cyfathrebu eraill ar gyfer bioamrywiaeth, er enghraifft cynlluniau gwobrwyo, digwyddiadau lleol?

Nid yw'r Papur Gwyn yn effeithio ar fioamrywiaeth ac, felly, nid yw'n canolbwyntio ar wella dealltwriaeth na chodi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth.

Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

4. Ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?

- **Rhaid** i chi ystyried y canlynol:
 - y rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)
 - yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol
 - unrhyw ddatganiad ardal perthnasol a gyhoeddir gan CNC.
- Os yw eich cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dylai gyfeirio at gofnodion bioamrywiaeth sydd ar gael drwy:
 - Canolfannau Cofnodion yr Amgylchedd Lleol
 - Atlas o Gymru Fyw
 - Lle

Nid yw'r cynigion yn y Papur Gwyn yn peri bygythiad i unrhyw rywogaethau na chynefinoedd pwysig iawn a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Nid yw'r Papur Gwyn yn ymwneud â defnyddio Adnoddau Naturiol.

Gallai rhaglenni adeiladu tai yn y gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio y bwriedir iddynt gynyddu'r cyflenwad o dai, gael effaith ar fioamrywiaeth. Fodd bynnag, nid yw gweithgarwch adeiladu tai yn dod o dan gynigion yn y Papur Gwyn hwn ac, felly, nid yw'n ymwneud ag adeiladu na rheoli tir.

5. Ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

- ♦ Ydych chi'n gwybod beth sy'n sbarduno newid a ffactorau negyddol allweddol a allai godi o'ch cynnig?
- ♦ Ydych chi'n fodlon nad yw'r rhain yn berthnasol neu eu bod wedi cael eu hosgoi?

Nodwyd bod y prinder yn y cyflenwad o dai yn un o'r rhwystrau i sicrhau digonolrwydd tai yng Nghymru. Gallai cynnydd mewn gweithgarwch adeiladu tai gael effaith andwyol ar fioamrywiaeth, ond nid oes unrhyw gynigion yn y Papur Gwyn hwn ar gyfer adeiladu tai. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid cynyddu'r cyflenwad o eiddo rhent fforddiadwy drwy ddarparu rhyddhad treth, o bosibl, ar gyfer eiddo sy'n cael ei brynu a'i lesio i'r awdurdod lleol. Mae'r cynnig hwn yn fodd i gynyddu'r cyflenwad drwy ddefnyddio eiddo presennol ac ni fydd yn effeithio ar fioamrywiaeth.

6. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?

- A all gefnogi mentrau gwyddoniaeth sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion, a chynlluniau monitro?
- Ydych chi wedi sicrhau bod unrhyw ddata bioamrywiaeth sy'n cael eu casglu ar gael i'r cyhoedd?

Ni fydd y Papur Gwyn yn cael unrhyw effaith ar yr uchod.

Llywodraethu a chymorth i gyflawni camau gweithredu o blaid bioamrywiaeth

7. A all eich cynnig gefnogi camau gweithredu o blaid bioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?

- A all staff gymryd rhan mewn camau ymarferol?
- Allwch chi ariannu camau gweithredu'n uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol?
- Allwch chi gefnogi partneriaethau a/neu gydweithio ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth yn lleol ac yn y gymuned?

Ni fydd y Papur Gwyn yn cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth ac nid yw'n cefnogi gweithredu dros fioamrywiaeth mewn unrhyw un o'r ffyrdd uchod.

8. A all eich cynnig helpu i feithrin gallu ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth?

- Allwch chi gefnogi'r gwaith o gaffael sgiliau a hyfforddiant?
- A yw eich cynnig yn sicrhau'r lefel briodol o gymwysterau i'r rhai sy'n ymwneud â phenderfyniadau ynghylch bioamrywiaeth?

- A all eich cynnig ariannu gweithgarwch meithrin gallu ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth?

Ni fydd y Papur Gwyn yn cael unrhyw effaith ar yr uchod. Ni fydd y cynigion yn helpu i feithrin gallu ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth.

9. Ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chymau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?

- ♦ Rhaid i adroddiad ar yr hyn y mae'r awdurdod cyhoeddus wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2019 ac yna bob tair blynedd ar ôl y dyddiad hwn.

Nid oedd angen cofnodi penderfyniadau na chymau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth gan na fydd y cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth.

G. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Pa dystiolaeth a ystyriwyd er mwyn deall sut mae'r cynnig yn cyfrannu at anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyladwy i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae tudalen 8 o'r canllawiau statudol ar gyfer y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn cyfeirio at 'gymunedau buddiant'¹³⁹. Mae'r rhain yn grwpiau o bobl sy'n rhannu buddiant megis rhieni unigol, gofalwyr, y rhai sy'n rhannu iaith gyntaf gyffredin neu'r rhai sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.¹⁴⁰ Mae'r canllawiau hefyd yn nodi grwpiau o bobl sy'n rhannu profiad, er enghraifft pobl sydd wedi bod yn ddigartref; yr un system iechyd a gofal cymdeithasol leol; neu wasanaeth lleol.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi 'cymunedau lle' fel y rhai sy'n rhannu lleoliad daearyddol. Er enghraifft, lle mae pobl yn byw, yn gweithio, yn ymweld â nhw neu'n treulio llawer iawn o'u hamser.

Term allweddol sy'n gysylltiedig â'r Ddyletswydd yw anfantais economaidd-gymdeithasol. Fe'i diffinnir yn y canllawiau fel 'byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol na phobl eraill yn yr un gymdeithas'. Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn cymunedau buddiant a chymunedau lle, a all gael ei gynyddu ymhellach wrth ystyried croestoriadedd.

Wrth ddatblygu'r Papur Gwyn, rydym wedi ystyried effaith y cynigion ar unigolion y mae anfantais economaidd-gymdeithasol wedi effeithio arnynt wrth ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, sydd wedi rhannu eu tystiolaeth o brofiadau bywyd pobl. Ym mis Mehefin 2023, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ar sicrhau llwybr tuag at dai digonol, gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd.

¹³⁹ [WG42004 Cymru sy'n Fwy Cyfartal Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 \(llyw.cymru\)](#)

¹⁴⁰ [Deddf Cydraddoldeb 2010 \(legislation.gov.uk\)](#)

Cawsom sawl ymateb i'r Papur Gwyrdd gan sefydliadau sy'n cynrychioli unigolion y mae anfantais economaidd-gymdeithasol wedi effeithio arnynt ac effaith anfantais economaidd-gymdeithasol ar grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Mae gennym Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid allanol, sy'n cynnwys aelodau sy'n arbenigo yn y sector tai, yr ymatebodd llawer ohonynt i'r Papur Gwyrdd.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn. Gan fod tai yn un o sylfeini allweddol bywyd iach, aseswyd y bydd y Papur Gwyn yn cael effaith gadarnhaol ac yn lleihau anghydraddoldeb canlyniadau a all deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Cynllun Gwarantwyr Rhent

Dylai'r cynnig i ddatblygu dull cyson i awdurdodau lleol ddatblygu canllawiau ar Warantwyr Rhent gael effaith gadarnhaol ar bobl sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r cynnig yn ystyried y posibilrwydd o bennu meini prawf cymhwysra penodol a byddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi i bobl y mae anfantais economaidd-gymdeithasol wedi effeithio arnynt mewn rhyw ffordd, megis y rhai sydd wedi bod yn ddigartref, y rhai sy'n gadael gofal, neu'r rhai sydd wedi wynebu cam-drin domestig. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn gofyn i ymatebwyr a oes grwpiau eraill o bobl y dylid hefyd eu hystyried wrth ystyried y meini prawf cymhwysra ac, felly, yn dilyn y Papur Gwyn, byddwn yn ystyried ymhellach a ddylid ystyried grwpiau eraill o bobl y mae anfantais economaidd-gymdeithasol wedi effeithio arnynt gyda'r meini prawf cymhwysra.

Mae'r cynnig yn debygol o leihau anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan fod y meini prawf cymhwysra yn debygol o gynnwys cymunedau buddiant a chymunedau lle. Mae'r meini prawf cymhwysra yn ystyried yr anfantais economaidd-gymdeithasol a wynebwr gan unigolion 'heb hawl i gyllid cyhoeddus'. Mae pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus yn cynnwys ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr a ddaw i'r DU ac y gosodir cyfyngiadau ar eu gallu i gael cyllid cyhoeddus. Yna, gall pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus fod yn agored i amodau tai ansicr gan na allant gael cyllid cyhoeddus, fel y nodir yn Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.¹⁴¹ Mae'r cynnig hwn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y grwpiau o bobl sydd wedi'u cynnwys yn y meini prawf cymhwysra.

Rhowch grynodedb o dystiolaeth a dolenni

[WG42004 Cymru sy'n Fwy Cyfartal Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 \(llyw.cymru\)](#)

¹⁴¹ Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (llyw.cymru)

[Deddf Gydraddoldeb 2010 \(legislation.gov.uk\)](#)

[Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches \(llyw.cymru\)](#)

[digonolrwydd-tai-rhenti-teg.pdf \(llyw.cymru\)](#)

[Templed Ymgynghoriad \(llyw.cymru\)](#)

Sut y gallai'r cynnig o bosibl waethygu anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol ymhellach?

Fel y nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o dan **Atodiad B**, er mai nod y Papur Gwyn yw gwella tegwch canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, mae dwy effaith negyddol bosibl wedi'u nodi ar aelwydydd incwm is sy'n ymwneud â'r cynigion i wella data ar renti'r farchnad a'r cynnig ynglŷn ag anifeiliaid anwes yn y Sector Rhentu Preifat. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ar hyn o bryd nid oes gennym ddigon o dystiolaeth i nodi faint o risg sydd mewn gwirionedd y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol.

Gweler yr adran ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o dan **Atodiad B** am ragor o fanylion.

Rhowch grynodedb o dystiolaeth a dolenni

Gweler y dolenni sydd wedi'u cynnwys o dan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o dan **Atodiad B**.

Sut y gallai'r penderfyniad o bosibl wella canlyniadau i'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol?

Fel y nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, dylai'r cynigion yn y Papur Gwyn wella tegwch canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd yn ystyried croestoriadedd, gan nodi effaith y rhai y mae anfantais economaidd-gymdeithasol wedi effeithio arnynt ac unigolion â nodweddion gwarchodedig a all olygu bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o effeithio arnynt.

Gweler yr adran ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o dan **Atodiad B** am ragor o fanylion.

Rhowch grynodedb o dystiolaeth a dolenni

Gweler y dolenni sydd wedi'u cynnwys o dan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o dan **Atodiad B**

Sut y byddwch yn monitro effaith y penderfyniad hwn? (Ystyriwch ganlyniadau ehangach)

Byddwn yn monitro effaith economaidd-gymdeithasol y cynigion yn y Papur Gwyn drwy ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid yn ein Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid. Byddwn yn cynnal sawl digwyddiad ymgynghori gyda landlordiaid preifat, tenantiaid a rhanddeiliaid eraill y gallai'r cynigion effeithio arnynt er mwyn sicrhau bod pob safbwynt wedi'i ystyried. Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn ystyried a oes angen casglu rhagor o wybodaeth fonitro.